

# Pecyn Cymorth Busness Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru

2020 - FERSIWN 1

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU PECYN CYMORTH MARCHNATA

2020 - FERSIWN 1


YNGLŶN Â'R PECYN CYMORTH....4
PAM Y DYLECH DDEFNYDDIO'R PECYN CYMORTH....5
OEDDECH CHI'N GWYBOD
LLWYBR CLAWDD OFFA....6
LLWYBR GLYNDŴR....7
LLWYBR ARFORDIR PENFRO....8
CYFLE'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU....9
CYNLLUNYDD TEITHLENNI....10
DATHLIADAU....10
FFEITHIAU A FFIGURAU'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU....10
TEITHLYFRAU....11
DYDDIADUR DIGWYDDIADAU'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU....11

HYRWYDDO'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU....12
SUT I GYRRAEDD EICH CWSMERIAID....13
CRONFEYDD DATA....14
CYLCHLYTHYRAU....14
Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL....15
DIWEDDARU'N RHEOLAIDD....16
ADBORTH....16
BLWYDDYN YR AWYR AGORED 2020-2021....17
RAMBLERS CYMRU....18
CREU CYNIGION ARBENNIG....18
DEFNYDDIO'R GYMRAEG....18



Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid drwy Gronfa Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20, ariannwyd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru



SUT I DDATBLYGU YMGYRCH FARCHNATA....19
BETH YW EICH STORI CHI?....20
PAPURAU NEWYDD, RADIO, CYLCHGRONAU A THELEDU....21
BLOGWYR....21
RHWYDWEITHIAU ARBENIGOL....21
PARTNERIAETHAU CYMUNEDOL LLEOL....21

SUT I YSGRIFENNU DATGANIAD I'R WASG....22
CAEL Y GORAU O'CH GWEFAN....24
DEFNYDDIO FIDEO....27
DATBLYGU YMWELIADAU YMGYFARWYDDO....31
MANTEISIO AR Y TYMHORAU....33
CAEL STAFF I GYMRYD RHAN....35
CYDWEITHIO....37

DEUNYDDIAU MARCHNATA....40
CANLLAWIAU BRANDIO....41
CYFFREDINOL....41
E-GYLCHLYTHYR....41
NEGES CROESO I GERDDWYR MEWN IEITHOEDD TRAMOR ALLWEDDOL....41
MANTEISION CERDDED Y LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU AR GYFER IECHYD....42
PANEL FFEITHIAU CERDDED....42
IECHYD A DIOGELWCH....42
CYNGHORION I GERDDWYR CŴN....43
PARCHWCH Y DŴR....43
MENTRO'N GALL CYMRU....43
MAPIAU A THEITHIAU CERDDED....44
GWYBODAETH AM HYGYRCHEDD / I'R SAWL SYDD AG ANABLEDD....44
TRYSORAU CUDD....44
AIL-LENWI CYMRU....44

ENGHREIFFTIAU O ARFERION GORAU....45
SAFLEOEDD CYFRYNGAU CYMDEITHASOL....46
CYLCHLYTHYR....46
ENGHRAIFFT O DDATGANIAD I'R WASG....47



LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## YNGLŶN Â'R PECYN CYMORTH

# YNGLŶN Â'R PECYN CYMORTH

**Croeso i Becyn Cymorth marchnata Llwybrau Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys Llwybr Clawdd Offa, Llwybr Glyndŵr a Llwybr Arfordir Sir Benfro – adnodd ar-lein, rhad ac am ddim i bob busnes. Mae wedi'i gynllunio i fod yn hawdd i'w ddefnyddio, gan roi mynediad i chi at ddewis eang o ddeunydd a gwybodaeth, llawer ohono y gallwch chi ei lawrlwytho.**

Bydd defnyddio'r Pecyn Cymorth yn eich helpu i farchnata eich busnes yn llwyddiannus drwy ddefnyddio poblogrwydd y tri llwybr rhagorol yma, sydd eisoes yn llwyddo i ddenu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn, a thrwy ddefnyddio'r syniadau yn y Pecyn Cymorth hwn gallwch rannu'r llwyddiant hwnnw - gan ddenu cwsmeriaid newydd i ddefnyddio eich cynnyrch a'ch gwasanaethau chi.

Gyda chymorth y Pecyn hwn, byddwch yn gallu casglu ynghyd amrywiaeth o gynlluniau a syniadau ar gyfer marchnata a hyrwyddo. Mae fel cael eich tîm marchnata eich hun ar-lein.

Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am ddiogelwch er mwyn eihc helpu i hyrwyddo'r llwybrau'n gyfrifol ac annog pobl i fwynhau cerdded yng Nghymru yn ddiogel.

Mae popeth i'w gael yn y Pecyn Cymorth, o gyngor ar ysgrifennu datganiadau i'r wasg i sut i ddatblygu cynlluniau marchnata ar y cyd, gwella eich gwefan, bod yn giamstar ar y cyfryngau cymdeithasol a llawer mwy.

Drwy ddefnyddio'r Pecyn Cymorth, fe fyddwch yn gallu adnabod cyfleoedd newydd ar gyfer marchnata eich busnes i gerddwyr ac amrywiaeth eang o ymwelwyr drwy greu cynigion a chynhyrchion newydd i'w denu, fel:

- mentrau marchnata ar y cyd
- ymgyrchoedd yn y cyfryngau
- gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol
- deunydd hyrwyddo a chynigion arbennig

Bydd y rhain i gyd yn eich helpu i:

- gyrraedd cwsmeriaid newydd
- cynyddu eich busnes

Ac yn goron ar y cyfan– mae'r cwbl AM DDIM!

## Pam y dylech ddefnyddio'r Pecyn Cymorth

'Dydy marchnata a hyrwyddo eich busnes ddim yn hawdd - mae'n cymryd amser, ymdrech a chryn dipyn o arian. Felly, rydym wedi creu'r adnodd ar-lein hwn yn arbennig i chi. Drwy wneud defnydd ohono, bydd gennych fynediad at arbenigwyr marchnata, cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau ar flaenau eich bysedd, gan eich galluogi i greu cynlluniau marchnata yn arbennig i chi.

HAFAN



# A WYDDOCH CHI?

## LLWYBR CLAWDD OFFA

- Mae Llwybr Clawdd Offa'n llwybr cerdded 177 milltir (285 km) o hyd. Mae wedi ei enwi ar ôl, ac yn aml yn dilyn, y clawdd mawreddog y gorchmynnodd Offa ei adeiladu yn yr wythfed ganrif. Dyma'r Heneb Gofrestredig hiraf ym Mhrydain.
- Mae Llwybr Clawdd Offa'n mynd drwy wyth sir wahanol ac yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr dros 20 o weithiau.
- Mae'n cysylltu tair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharc Cenedlaethol - Dyffryn Gwy, Bryniau Swydd Amwythig a Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Mae'r Llwybr yn mynd drwy neu heibio i lawer o drefi hanesyddol, gan gynnwys Cas-Gwent, Trefynwy, y Gelli Gandryll, Kington, Llanandras, Trefyclo, Bishop's Castle, Trefaldwyn, y Trallwng, Croesoswallt, Llangollen, yr Wyddgrug, Rhuthun, Dinbych, a Phrestatyn.
- Mae'r Gelli Gandryll yn adnabyddus yn fyd-eang fel "tref y llyfrau". Mae'r dref farchnad hardd hon yn gorwedd ar lan ddwyreiniol afon Gwy ychydig y tu mewn i ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'n gartref i Ŵyl y Gelli, sy'n ddigwyddiad rhyngwladol, blynyddol.
- Ystyrir Castell Cas-Gwent fel y castell carreg hynaf ym Mhrydain sy'n dal i sefyll ac mae ganddo'r drysau hynaf o blith unrhyw gastell yn Ewrop – tua 800 oed. Tan 1962, roedd y drysau hyn yn hongian yn y brif fynedfa, ond erbyn hyn maen nhw'n ddiogel yn yr arddangosfa sydd ar y safle.
- Mae Pont Trefynwy yn croesi afon Mynwy yn nhref farchnad Trefynwy, sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac sy'n fwyaf adnabyddus fel man geni Harri V. Dyma'r unig bont gaerog ganoloesol dros afon sy'n dal i fodoli ym Mhrydain.
- Dyfrbont Pontcysyllte yw'r ddyfrbont hiraf ac uchaf ym Mhrydain ac fe'i gelwir yn aml 'y nant yn y nen'. Mae'n Heneb Gofrestredig, yn Safle Treftadaeth y Byd, ac yn Strwythur Rhestredig Gradd I.
- Mae'r Castell Gwyn, wrth ochr Llwybr Clawdd Offa, yn un o grŵp o dri chastell a gysylltir gan Lwybr y Tri Chastell; y lleill yw Ynysgynwraidd a'r Grysmwnt. Roedd y tri o dan reolaeth un arglwydd, Hubert de Burgh, yn gynnar yn y drydedd ganrif ar ddeg.
- Mae Llwybr Clawdd Offa'n rhedeg yn agos at Briordy Llanddewi Nant Hodni, priordy Awstinaidd sydd bellach yn adfail wrth droed y Mynydd Du ar Darren y Gader uwchben Dyffryn Llanddewi Nant Hodni, ac yn nodi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

HAFAN

LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU YNGLŶN Â'R PECYN CYMORTH



# A WYDDOCH CHI?

## LLWYBR GLYNDŴR

- Mae Llwybr Glyndŵr yn 135 milltir (217km) o hyd ac wedi ei enwi ar ôl Owain Glyndŵr, Tywysog Cymru ac arweinydd cenedlaetholgar Cymru'r Canol Oesoedd a drefnodd wrthryfel yn erbyn brenin Lloegr, Harri IV yn 1400.

- Mae'n werth gwneud yr ymdrech i wyro oddi ar Lwybr Glyndŵr am ychydig a mynd i fyny at gopa Foel Fadian (1530tr/510m) lle mae'r golygfeydd ar ddiwrnod clir yn ymestyn ar hyd dyffryn mawreddog Dulas i Fachynlleth a'r môr.

- Mae Llwybr Glyndŵr yn mynd â chi i rai o'r nodweddion mwyaf godidog yn nhirwedd Cymru, gan gynnwys bryniau tawel Maesyfed, glannau Cronfa Ddŵr Clywedog a chadwyn mynyddoedd Pumlumon, sydd wedi'i gorchuddio â grug.

- Mae'r llwybr yn mynd heibio i Lyn Clywedog - cronfa ddŵr a grewyd drwy adeiladu Argae Clywedog. Mae gan y llyn arwynebedd o 615 erw (230 o gaeau pêl-droed), mae'n 216 tr o ddyfnder yn ei fan dyfnaf ac mae'n ymestyn i bellter o ryw chwe milltir.  Uwchben yr argae mae llwyfan gwylio sy'n cynnig golygfa banoramig o'r wlad o'i amgylch.

- Yn Llyn Efyrnwy gallwch weld y gwybedog brith a'r tingoch, bronwen y dŵr, yr wyach fawr gopog a'r hwyaden ddanheddog. Edrychwch yn ofalus ac efallai y gwelwch chi hebog tramor yn gwibio drwy'r awyr.

- Mae Canolfan Owain Glyndŵr wedi ei hadeiladu ar safle'r senedd enwog a gynhaliwyd ym 1404 lle coronwyd Owain yn Dywysog Cymru. Cafodd yr adeilad rhestredig Gradd I hwn ei roi i dref Machynlleth gan yr Arglwydd Davies o Landinam ym mis Chwefror 1912.

- Gwyrwch oddi ar y llwybr am filltir i weld Castell Powys, yr adeilad canoloesol gyda'i erddi byd-enwog. Mae'r gerddi wedi'u llunio dan ddylanwad arddulliau Eidalaidd a Ffrengig, ac mae amrywiaeth o blanhigion prin i'w gweld yma.

- Ym mis Gorffennaf a mis Awst, gwnewch ymdrech arbennig i ymweld â Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Glaslyn, sy'n troi'n borffor pan fydd y grug yn ei flodau ac edrychwch am un o nodweddion arbennig y llyn, gwair merllyn, sy'n aml yn golchi i'r lan ar ôl tywydd garw.

- Yn uchel uwchben Dylife mae'r Llwybr yn dilyn hen Ffordd Rufeinig heibio olion caer Rufeinig Penycrocben.

HAFAN

LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU YNGLŶN Â'R PECYN CYMORTH



# A WYDDOCH CHI?

## LLWYBR ARFORDIR SIR BENFRO

- Agorwyd Llwybr Arfordir Sir Benfro ym 1970, a hwn oedd y Llwybr Cenedlaethol cyntaf yng Nghymru.
- Mae'n 186 milltir (299 km) o hyd ac yn mynd o Landudoch i Amroth.
- Mae'n pasio 58 o draethau ac 14 harbwr.
- Mae gwasanaeth bws arfordir Sir Benfro'n gwasanaethu holl ardal y llwybr.
- Mae tua 35,000 troedfedd o esgyn a disgyn dros hyd cyfan y llwybr - mae hynny mor uchel ag Everest!
- Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy'n rhedeg am 870 milltir o amgylch Cymru.
- Yng Nghastell Henllys, Crymych, gallwch gamu'n ôl mewn amser. Mae'n gaer unigryw o'r Oes Haearn, gyda ailgreadau anhygoel o dai crwn yr Oes Haearn wedi'u hadeiladu ar ben olion bryngaer sy'n 2,400 o flynyddoedd oed.
- Ychydig i mewn i'r tir yng nghastell godidog Caeriw, gallwch weld croes Geltaidd drawiadol o'r unfed ganrif ar ddeg, yr unig felin lanw sydd wedi'i hadfer yng Nghymru, a phont ganoloesol, i gyd wedi'u cysylltu gan daith gerdded gylchol filltir o hyd.
- Ar hyd y Llwybr, mae ceiau bychain, odynau calch a warysau, a safleoedd fel y gwaith brics ym Mhorthgain, yn ein hatgoffa o draddodiad diwydiannol yr ardal. Flynyddoedd mawr yn ôl, rhyfeddodd Nelson at harbwr naturiol dyfrffordd Aberdaugleddau, ac mae'n dal yn ganolbwynt diwydiannol hyd heddiw.
- Mae cwblhau Llwybr yr Arfordir ar un tro yn cymryd rhwng 10 a 15 diwrnod ar gyfartaledd.Tyddewi, ar Lwybr yr Arfordir, yw dinas leiaf Prydain gyda phoblogaeth o lai na 2,000. Rhoddwyd statws dinas iddi yn y ddeuddegfed ganrif, ond fe'i collodd ym 1886. Cafodd ei statws dinas ei adfer ym 1995 drwy Siarter Brenhinol.
- Mae Llwybr yr Arfordir yn mynd drwy dirwedd sydd â chyfoeth o olion archaeolegol a hanesyddol. Mae caerau pentir oes yr haearn, ynghyd â'u ffosydd a'u rhagfuriau, i'w gweld ar ymyl sawl clogwyn, a cheir cestyll canoloesol cain ym Maenorbŷr a Phenfro, ac amddiffynfeydd mwy diweddar o'r oes Napoleonaidd a'r ail ryfel byd.

HAFAN

# CYFLE'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

**Gyda'i gilydd, mae'r tri Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru – Llwybr Clawdd Offa, Llwybr Glyndŵr a Llwybr Arfordir Sir Benfro – bron i 500 milltir (800km) o hyd. Mae'r llwybrau trawiadol hyn yn eich galluogi i farchnata eich busnes i'r miloedd sy'n cerdded y tri llwybr bob blwyddyn. Gyda chymorth y Pecyn hwn, gallwch hefyd gysylltu â 13 o Lwybrau Cenedlaethol eraill ledled Lloegr.**

O deuluoedd ifanc, i gyplau wedi ymddeol, ac o gerddwyr unigol i'r rhai sy'n chwilio am antur – defnyddiwch y Pecyn Cymorth i ddarganfod ffyrdd y gallwch chi wneud yn siŵr eu bod yn dod yn gwsmeriaid i chi.

Mae Llwybrau Cenedlaethol yn frand eiconig, rhyngwladol ac felly mae'n eich cysylltu chi a'ch busnes â marchnad ddefnyddwyr eang ac amrywiol.

Felly, beth allwch chi ei gynnig i'ch cwsmeriaid a fydd yn apelio at gerddwyr y Llwybrau Cenedlaethol? Edrychwch ar y syniadau yma a darllenwch ddolenni gwe'r Llwybrau Cenedlaethol am ragor o wybodaeth.

- Cynnig cyfleuster sychu dillad
- Casglu cerddwyr o arosfannau bysiau neu drenau lleol
- Casglu cerddwyr o'r Llwybr a'u gollwng wrth y llwybr
- Darparu amserlenni bysiau a threnau
- Cynnig manylion cyswllt ar gyfer busnesau lleol defnyddiol, fel tacsis, mannau llogi beiciau, llogi ceir ac ati
- Cynnig mapiau a gwybodaeth am deithiau cerdded

### LLWYBR CLAWDD OFFA

- Llwybr Clawdd Offa
- Llwybr Clawdd Offa
- Teithiau Llwybr Clawdd Offa (Croeso Cymru)

### LLWYBR GLYNDŴR

- Gwybodaeth Llwybr Glyndwr
- Dewisiwch eich hoff daith ar Lwybr Glyndwr (Croeso Cymru)

### LLWYBR ARFORDIR SIR BENFRO

- Llwybr Arfordir Penfro
- Teithiau cylchog ac unffordd Llwybr Arfordir Penfro
- Darganfod Llwybr Arfordir Penfro ( Croeso Cymru)

- Diodydd a bwydydd bach am ddim i gŵn
- Bagiau baw cŵn am ddim
- Casglu bagiau
- Darparu pecynnau cinio
- Cynnig gwybodaeth leol – teithiau cerdded gorau'r arfordir, llefydd gwych i fynd iddyn nhw am ddiod/cinio
- Benthyg ffyn cerdded
- Darparu parc beiciau diogel
- Darparu gwybodaeth am ddiogelwch

### DOLENNI LLWYBRAU CENEDLAETHOL

- Y llwybrau gorau yng Nghymru a Lloegr
- Y llwybrau cerdded anhygoel

LLWYBRAU CENEDLAETHOL

### LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro hefyd yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru, y llwybr byd-enwog sy'n 870 milltir o hyd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cynnig cyfleoedd arbennig i farchnata eich busnes.

LLWYBR ARFORDIR CYMRU

### CROESO CYMRU

Cymerwch olwg ar wefan Croeso Cymru am fwy o syniadau a chyngor am ddim:

CROESO CYMRU

HAFAN

## CYNLLUNYDD TEITHLENNI

Mae gan wefan y Llwybrau Cenedlaethol hefyd gynllunydd teithlenni ar gyfer pob un o'r llwybrau. Cymerwch olwg ar https://www.nationaltrail.co.uk/cy_GB/trails/ i gael syniadau gwych a gwybodaeth gyffredinol, a dyma ddolenni i'r llwybrau penodol yng Nghymru:

- Clawdd Offa
- Llwybr Glyndŵr
- Llwybr Arfordir Sir Benfro

## DATHLIADAU

Mae dathliadau fel pen-blwyddi yn cynnig cyfleoedd gwych o ran cyhoeddusrwydd a hyrwyddo eich busnes. Mae Llwybr Clawdd Offa yn dathlu eu hanner canmlwyddiant yn ystod 2021.

Gohiriwyd trefniadau o ganlyniad i Covid-19, ond cadwch lygad am fanylion yr hyn sydd wedi'i gynllunio, a fydd yn cael tipyn o gyhoeddusrwydd cyn bo hir. Darganfyddwch sut y gallwch chi gysylltu'r hyn rydych chi'n ei wneud â'r dathliadau yma.

## FFEITHIAU A FFIGURAU'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

Mae'r tri Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru ynghyd â Llwybr Arfordir Cymru'n cynnig amrywiaeth eang o deithiau cerdded i gerddwyr o bob gallu.

O deithiau cerdded uwchben clogwyni a thraethau diarffordd i ddarganfod trefi a phentrefi marchnad, mae'r llwybrau'n cynnig dewis unigryw i ymwelwyr. Does dim angen i chi fod yn gerddwr brwd hyd yn oed i fwynhau'r llwybrau, gan fod darnau byrion rhwydd os ydych chi am wneud taith gerdded sydyn a hawdd, yn ogystal â llwybrau hirach, mwy heriol.

Mae Llwybr Clawdd Offa'n Llwybr Cenedlaethol hardd 177 milltir o hyd sy'n rhedeg ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr. O'r de i'r gogledd, mae'n dechrau wrth Aber Afon Hafren yn Sedbury, ger Cas-Gwent, ac yn gorffen ym Mhrestatyn ar arfordir y gogledd. Bydd y cerddwr cyffredin yn cymryd tua 12 diwrnod i gwblhau'r daith gerdded hon. Mae Lonely Planet yn enwi Clawdd Offa fel un o deithiau cerdded gorau'r byd.

Yn yr wythfed ganrif, fe wnaeth y Brenin Offa o Fersia godi rhagfur llydan ar y ffin i wahanu Cymru a Lloegr, sef Clawdd Offa. Ganrifoedd yn ddiweddarach, ym 1971, gosodwyd y llwybr wrth ei ochr ac mae'n mynd drwy wyth sir, gan gynnig amrywiaeth o drefi marchnad hardd ar hyd y ffordd, a dewis da o lefydd i aros.

Bydd Llwybr Glyndŵr yn mynd â chi i'r mannau mwy diarffordd. Mae ei lwybr, sy'n cymryd naw diwrnod i'w gerdded, yn ymweld â llawer o'r safleoedd sy'n gysylltiedig â gorffennol hanesyddol Cymru – trefi fel y Trallwng, Trefyclo a Machynlleth.

Ar y llwybr llawn, byddwch yn cerdded trwy dir fferm bryniog, gweunydd agored a bryniau grugog, ac yn darganfod golygfeydd syfrdanol o Gader Idris a mynyddoedd Pumlumon. Byddwch yn aros dros nos mewn trefi bach fel Llanidloes neu bentrefi hyfryd fel Meifod, ond gallwch deithio am filltiroedd heb gwrdd ag unrhyw un heblaw am ambell i ffermwr. Er na welwch chi fawr ddim pobl, rydych chi'n siŵr o weld y barcud, yr hebog tramor a'r bwncath.

Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro'n 186 milltir o hyd, mae'n pasio 58 o draethau a 14 harbwr, ac mae'n mynd heibio i bob clogwyn a thraeth rhwng Llandudoch ac Amroth. Mae'n rhan o Lwybr Arfordir Cymru sy'n 870 milltir o hyd, ac sy'n mynd o gwmpas arfordir cyfan Cymru.

Yn 2012, enwodd y cylchgrawn National Geographic Sir Benfro fel ail gyrchfan arfordirol orau'r byd. Y flwyddyn cyn hynny, daeth Llwybr Arfordir Sir Benfro'n ail mewn rhestr o ddeg o lwybrau pellter hir gorau'r byd gan yr un cylchgrawn.

### AWDURDODAU LLEOL

**Cymerwch olwg ar wefannau awdurdodau lleol a sefydliadau defnyddiol eraill sy'n gweithio yn ardaloedd y Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru. Yma fe welwch wledd o ffeithiau, ffigyrau a gwybodaeth am weithgareddau yn eich ardal:**

- Croeso Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Cyngor Sir Fynwy

HAFAN

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU YNGLŶN Â'R PECYN CYMORTH




## TEITHLYFRAU

Cyhoeddir teithlyfrau'r Llwybrau Cenedlaethol gan Aurum Press, ymhlith eraill. Mae pob un yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gerdded y llwybr gan gynnwys mapiau'r Arolwg Ordnans ar gyfer y llwybr cyfan a gwybodaeth am fannau diddorol, trafnidiaeth gyhoeddus a llety.

Ewch i

SIOP LLWYBRAU CENEDLAETHOL

am fwy o wybodaeth.

SIOP LLWYBR CLAWDD OFFA

Dyma ychydig o ffeithiau nad oeddech chi'n wybod, efallai, am Lwybrau Cenedlaethol Cymru:

- Ar gyfartaledd, mae rhedwyr mynyddoedd yn cymryd 5 diwrnod i gwblhau Llwybr Clawdd Offa ac mae heicwyr yn cymryd 12 diwrnod.
- Mae gan Llwybr Clawdd Offa raddfa o 30,000 troedfedd, a byddai cerdded y lwybr cyfan yn cyfateb a dringo Everest
- Mae Clawdd Offa bron i 20 metr o led mewn mannau, a hyd at wyth metr o ddyfnder.
- Fel arfer, mae Llwybr Glyndŵr yn cael ei gerdded mewn un cyfeiriad, gan ddechrau wrth gloc y dref yn Nhrefyclo a gorffen yn y parc wrth ymyl y gamlas yn y Trallwng.
- Mae'n cymryd naw diwrnod ar gyfartaledd i gwblhau Llwybr Glyndŵr.
- Mae dros 490 o giatiau a 39 o bontydd ar hyd Llwybr Glyndŵr.
- Mae'n cymryd tua pythefnos a hanner i gerdded 186 o filltiroedd arfordir Sir Benfro.
- Ym Mhen Cemaes mae Llwybr Arfordir Sir Benfro'n cyrraedd uchder o 574 troedfedd (175 m) ac ar ei bwynt isaf – man croesi Sandy Haven, ger Aberdaugleddau – dim ond chwe throedfedd (2 m) uwchben lefel dŵr isel yw'r llwybr.
- Yn 2020 dathlodd Llwybr Arfordir Sir Benfro ei hanner canmlwyddiant.

- Ac i ddangos pa mor boblogaidd yw cerdded, mae Llwybr Arfordir Cymru yn cael dros 43 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn, gyda cherddwyr yn gwario bron i £550 miliwn y flwyddyn. Meddyliwch beth all y Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru ei wneud i'ch busnes chi!

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

Rhowch reswm arall i'ch cwsmeriaid ymweld â chi drwy gynnwys manylion am ddigwyddiadau yn eich ardal ar eich gwefan ac yn eich deunydd marchnata. Gallwch weld beth sy'n digwydd ar hyd y llwybrau drwy glicio ar y dolenni hyn.

LLWYBR CLAWDD OFFA

LLWYBR GLYNDŴR

LLWYBR ARFORDIR SIR BENFRO

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am ddigwyddiadau eraill, fel gwyliau cerdded, yma: Walks around Britain.

Mae gwefan y Llwybrau Cenedlaethol â lle i chi fewnbynnu gwybodaeth sy'n bwysig i chi a'ch busnes. Mae'n ffordd wych o sicrhau bod yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn ei gynnig i'ch ymwelwyr yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol. Ar wefan y Llwybrau Cenedlaethol, gallwch uwchlwytho gwybodaeth i restr lletyau; hyrwyddo eich busnes; rhannu ffotograffau; chwilio am lefydd o ddiddordeb; a hyrwyddo eich digwyddiadau.

Ewch i Gwefan y Llwybrau Cenedlaethol dewiswch eich Llwybr a chliciwch ar "Ychwanegu eich gwybodaeth" ar ben eich sgrin.

HAFAN

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## HYRWYDDO'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

# SUT I GYRRAEDD EICH CWSMERIAID

**Mae angen amrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau ar y rhai sy'n cerdded neu'n ymweld â Llwybrau Cenedlaethol ac fel busnes lleol rydych chi mewn sefyllfa ddelfrydol i'w darparu.**

Rydych chi'n gwybod pa mor dda ydych chi: bod eich ystafelloedd cyfforddus yn cynnig croeso cynnes; bod y bwyd yn eich bwyty'n rhy dda i'w golli neu bod eich atyniad ar gyfer twristiaid yn gyffrous ac yn cynnig profiadau unigryw i ymwelwyr. Ond a yw'r miloedd o ymwelwyr sy'n cerdded y Llwybrau Cenedlaethol bob blwyddyn yn gwybod hynny?

Cymrwch gam yn ôl a rhowch eich hun yn esgidiau eich cwsmer. Efallai nad yw'r hyn sy'n amlwg i chi yn amlwg i'r rhai sydd erioed wedi ymweld â'r ardal - felly dywedwch wrthyn nhw.

Byddwch yn glir am yr hyn rydych chi'n ei gynnig. Edrychwch o gwmpas ac fe welwch ddigon o enghreifftiau o wefannau gwestai sydd ddim yn crybwyll neu'n egluro eu hystod lawn o wasanaethau; y parciau antur sydd ddim yn dangos eu horiau agor neu'r bwytai sydd ddim yn arddangos bwydlenni sampl ar eu gwefannau.

Mae hepgor gwybodaeth fel hyn yn rhwystr i fusnes. Yn y bôn, rydych chi'n troi cwsmeriaid i ffwrdd, oherwydd ychydig iawn o bobl a fydd yn treulio amser yn chwilio eich gwefan am wybodaeth sydd ddim yn amlwg ar yr olwg gyntaf.

**Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud y canlynol:**

- gwirio bod yr holl ddeunyddiau marchnata – eich gwefan, llyfrynnau ac ati – yn nodi'n glir ac yn syml yr hyn rydych chi'n ei gynnig drwy nodi pwyntiau gwerthu allweddol eich busnes sy'n ddeniadol i gerddwyr.
- ei gwneud yn hawdd i gwsmeriaid gysylltu â chi a chael sgwrs ddwy ffordd gyda chi - felly dylech gynnwys rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost ac ati sy'n hawdd cael gafael arnyn nhw.
- peidio â dweud wrth gwsmeriaid am gysylltu â chi ar manylion@busnesaralldi-nod.co.uk. Gwnewch eich perthynas yn fwy personol a defnyddiwch enw mewn manylion cyswllt, fel "Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Jane Smith janes524@gwelyabrecwast.com 0123 4567456".
- defnyddio ffotograffau o ansawdd da i ddangos eich cynnyrch a'ch gwasanaethau. Mae delweddau ansawdd uchel o'r tri llwybr wedi'u comisiynu a bydd modd i chi eu defnyddio am ddim - lluniau trawiadol o Lwybr Clawdd Offa, Llwybr Glyndŵr, Llwybr Arfordir Sir Benfro a'r ardaloedd cyfagos. Felly, defnyddiwch nhw – dangoswch i'ch cwsmeriaid bod eich busnes wedi'i leoli ynghanol golygfeydd anhygoel. Ewch i lyfrgell ffotograffau Cymru lle mae amrywiaeth o ffotograffau eisoes wedi'u huwchlwytho, gyda mwy i ddod dros y misoedd nesaf. Ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn gallu dewis pa ddelweddau rydych chi am eu lawrlwytho – yn rhad ac am ddim.

Dolen i'r llyfrgell ffotograffau

Gallwch ddefnyddio delweddau o'r tri Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Ar eich gwefan, mewn llyfrynnau neu ar y cyfryngau cymdeithasol fel Twitter ac Instagram
- I ddarlunio llyfrynnau ystafelloedd gwely mewn gwestai a lletyau gwely a brecwast
- I wneud gwybodaeth rydych chi'n ei hanfon at gwsmeriaid yn fwy diddorol

I weld y canllawiau brandio newydd ar gyfer Llwybrau Cenedlaethol - ewch i:

CANLLAWIAU BRANDIO'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL

HAFAN

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU
## HYRWYDDO'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU



Wrth geisio denu cwsmeriaid, cofiwch pa mor bwysig yw cadw'r cwsmeriaid sydd gennych yn barod. Felly, peidiwch ag anwybyddu'r rhai rydych chi'n eu gwasanaethu'n barod.

Felly, gwnewch yn siŵr:

- Eich bod yn creu ac yn cynnal cronfa ddata o'ch cwsmeriaid.
- Eich bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid, efallai drwy gylchlythyr a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Eich bod yn defnyddio digwyddiadau lleol i'ch helpu i greu pecynnau a chynigion arbennig. Cadwch lygad am y pethau sydd "ychydig yn wahanol". Er enghraifft: Mae'r Rebellion Summer, fersiwn ychydig yn gynhesach o'r Rebellion Winter poblogaidd, yn Farathon Wltra 135 milltir (217 km) yng Nghanolbarth Cymru. Mae'n dilyn Llwybr Cenedlaethol Llwybr Glyndŵr yn ei gyfanrwydd gyda chyfanswm esgyniad o ychydig dros 25,000tr (7700m). Mae'r digwyddiad yn cychwyn yn Nhrefyclo, ar y ffin, yn creu dolen drwy Fachynlleth ac yn gorffen yn y Trallwng. Mae'n un o'r llwybrau rhedeg wltra harddaf a mwyaf heriol yn y DU.

SUMMER REBELLION

Crëwch gysylltiadau â Gwyliau Cerdded er mwyn annog gwesteion i ddychwelyd ar adegau eraill o'r flwyddyn ac i aros am sawl diwrnod. Dyma rai dolenni defnyddiol:

- Walks in Chepstow
- Kington Walks
- Bishop Castle Walking Festival
- Visit Montgomery
- Llangollen Walking Festival
- Prestatyn Walking Festival

## CRONFEYDD DATA

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi manylion cyswllt eich ymwelwyr, ond mae'n rhaid i chi gael eu caniatâd i roi'r newyddion diweddaraf iddyn nhw am yr hyn rydych chi a'ch busnes yn ei wneud. Gallwch wneud hyn yn hawdd trwy ofyn cwestiwn ar eich gwefan megis: "Hoffech chi dderbyn ein cylchlythyr?" neu "Cliciwch yma i gael y diweddaraf ar gynigion arbennig". Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich cyfrifoldeb o ran cadw data eich cwsmeriaid yn ddiogel yn:

GDPR

## CYLCHLYTHYRAU

Mae e-bostio cylchlythyr syml yn ffordd hawdd o gadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid a does dim angen iddo gostio llawer. Dyluniwch dempled syml neu defnyddiwch un o'r adnoddau rhad ac am ddim sydd i'w cael ar-lein. Anfonwch y cylchlythyr i'ch tanysgrifwyr ddim mwy na dwy neu dair gwaith y flwyddyn gyda gwybodaeth am beth sy'n newydd yn y busnes neu beth sy'n newid, a manylion am ddigwyddiadau sydd ar y gweill. Dylech gynnwys gwybodaeth am y Llwybrau, fel "Pam mae'r gwanwyn yn amser da i ymweld", "Cerdded y Llwybrau Cenedlaethol yn yr hydref", a manylion defnyddiol fel amseroedd a llwybrau bysiau.

Efallai eich bod wedi ychwanegu gwasanaethau neu gyfleusterau newydd, wedi cyflogi rheolwr blaen tŷ newydd, neu wedi newid eich oriau agor. A chofiwch gynnwys cynnig arbennig ar gyfer eich cwsmeriaid arbennig. (Mae adran ar wahân ar Greu Cynigion Arbennig yn y Pecyn Cymorth.)

ENGHREIFFTIAU O ARFERION GORAU

Cymerwch olwg ar Enghreifftiau o Arferion Gorau ar ddiwedd y Pecyn Cymorth i weld cynllun templed e-gylchlythyr y gallwch ei ddefnyddio.

HAFAN

# Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**Mae cyfryngau cymdeithasol yn cynnig ffyrdd gwych o ryngweithio â chwsmeriaid posibl, cyhoeddi gwybodaeth a sylwadau ac ymateb i'r hyn y mae eraill yn ei ddweud.**

FACEBOOK: llwyfan gwych i ddangos eich busnes. Beth am ofyn i'ch ymwelwyr argymhell eich busnes drwy fideo a chysylltu hyn â'u profiad o gerdded y llwybrau? Gallwch hefyd ddefnyddio'r adrannau Digwyddiadau ar Facebook i greu cysylltiadau â'r hyn sy'n digwydd yn eich ardal chi.

TWITTER: ffordd wych o gysylltu â busnesau eraill ac ar gyfer rhoi eich cynigion arbennig i'ch dilynwyr. Cofiwch ddod o hyd i a dilyn cyfrif Twitter eich llwybr - @glyndwrsway, @PembsCoast neu @OffasDykePath, yn ogystal â chyfrif y Llwybrau Cenedlaethol, @NationalTrails. Tagiwch nhw yn eich negeseuon ac ymgysylltwch â nhw. Edrychwch ar bwy y maen nhw'n eu dilyn i weld a oes cyfleoedd i ymgysylltu, hyd yn oed os mai dim ond aildrydar neu rannu neges wnewch chi, a meddyliwch sut y gallwch chi blethu Llwybrau Cenedlaethol Cymru i mewn i'ch gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Gallech chi hefyd ddilyn Croeso Cymru @visitwales, @croesocymru, ac unrhyw sefydliadau y gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw sy'n gysylltiedig â chynnig arbennig eich busnes neu bynciau sydd o ddiddordeb i'r rheini sy'n cerdded y llwybrau – crwydro, bwyd a diod, hanes lleol a hel achau, ffotograffiaeth, paentio ac ati

INSTAGRAM: oherwydd mai delweddau sydd wrth wraidd Instagram, defnyddiwch yr ap i arddangos eich busnes gyda ffotograffau o'r llwybrau'n glir yn y ddelwedd, gan wahodd pobl i ddod i fwynhau'r llwybrau ac aros gyda chi, bwyta gyda chi neu ymweld â chi.

PINTEREST: piniwch y syniadau sy'n werthfawr i chi a'r llwybrau – llefydd i ymweld â nhw ar hyd y ffordd, llefydd i fwynhau'r olygfa, llefydd i gymryd seibiant a chael rhywbeth i'w fwyta neu yfed.

DEFNYDDIWCH HASHNODAU: hashnodau allweddol Croeso Cymru sy'n berthnasol i'r Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru yw #FyNghymru, #darganfodcymru, #cymru, #FindYourEpic, #Wales, #discoverwales and #gwladgwlad, ond gallwch hefyd ddefnyddio hashnodau sy'n cysylltu â'r Llwybrau unigol - #LlwybrGlyndwr, #LlwybrClawddOffa, #LlwybrArfordirPenfro, #llwybraucenedlaethol, #llwybrarfordircymru, #arfordirpenfro, #NationalTrails, #nationaltrail, #offasdyke, #specialoffa, #walescoastpath, #pembscoast, #pembscoastpath, #Borderlands, #offasdykepath

.... ac i gerdded yn gyffredinol: #cerddedcymru, #arfordircymru, #arfordir, #cerddedcymru, #coastofwales, #walescoast, #coast, #coastal, #walking, #Welshcoast, #walkingwales, #longdistancewalking

Mae bob amser yn werth ychwanegu eich ardal leol at eich trydariadau – dyma rai awgrymiadau: @MonCountryside, @visit_mon, @ShropHillsAONB, @wyebeauty, @Clwyd_Dee_AONB, @Powyscountry

HAFAN



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## HYRWYDDO'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

### DIWEDDARU'N RHEOLAIDD

Mae marchnata eich busnes yn dda yn dod â chi'n agosach at eich cwsmeriaid a gall helpu i gryfhau'r berthynas sydd gennych chi â nhw, gan feithrin teyrngarwch ymhlith eich cwsmeriaid.

Mae creu'r sgwrs ddwy ffordd hon gyda'ch cwsmeriaid yn golygu bod yn rhaid i chi ddiweddaru sianeli hyrwyddo yn rheolaidd. Felly edrychwch ar eich gwefan yn rheolaidd a gwnewch newidiadau bach cynnil. Nid oes angen i chi fynd i'r gost o adnewyddu eich gwefan yn rheolaidd, ond rhaid i chi ei chadw'n gyfredol.

Felly, beth am roi cynnig ar y canlynol:

- Cael adran neu banel "Digwyddiadau" ar eich gwefan gyda manylion y digwyddiadau diweddaraf – pethau sy'n digwydd yn eich busnes ac ar hyd y llwybrau; tudalen "Newyddion" lle rydych chi'n cyhoeddi gwybodaeth am y busnes; a thrydar yn rheolaidd.
- Darparu dolenni ar eich gwefan i wefannau partneriaid a pheidiwch ag anghofio cysylltu â gwefan y Llwybrau Cenedlaethol:

LLWYBRAU CENEDLAETHOL

- Llunio cynllun hyrwyddo sy'n manylu ar yr hyn rydych yn mynd i'w wneud a phryd. Os gallwch chi neilltuo cyn lleied ag awr neu ddwy yr wythnos, byddwch yn gallu cadw popeth yn gyfredol a byddwch yn elwa o hynny, oherwydd byddwch yn fusnes sydd â neges allweddol i'w gwsmeriaid a'i ddarpar gwsmeriaid sy'n dweud: "Rydyn ni o ddifri ynglŷn â'n gwaith, ac rydyn ni am i'ch ymweliad â ni fod yn werth chweil!".
- Edrychwch ar deithiau cerdded unigol ar hyd y llwybrau ar y gwefannau hyn. Defnyddiwch yr wybodaeth i greu cynlluniau teithiau ar gyfer eich ymwelwyr.

LLWYBR GLYNDŴR:

- Dewisiwch eich hoff daith ar Lwybr Glyndwr (Croeso Cymru)

LLWYBR CLAWDD OFFA:

- Teithiau Llwybr Clawdd Offa (Croeso Cymru)

LLWYBR ARFORDIR SIR BENFRO:

- Llwybr Arfordir Penfro Dringo Everest ( Croeso Cymru)

Beth bynnag rydych chi'n ei wneud – gwnewch hynny'n rheolaidd. Bydd yn cymryd rhywfaint o'ch amser, ond bydd cadw popeth yn ffres yn golygu y bydd angen i chi dreulio llai o amser ar y dasg. Bydd yn sicr o dalu ar ei ganfed.

### ADBORTH

Anogwch adborth gan eich cwsmeriaid – gall roi gwybodaeth werthfawr i chi am eich busnes, gan eich helpu i fireinio'r cynhyrchion a'r gwasanaethau rydych yn eu cynnig.

Gallwch annog adborth mewn sawl ffordd. Gallwch roi ffrwd Twitter ar eich gwefan, cyhoeddi adolygiadau cwsmeriaid a darparu holiadur syml i'r rhai sy'n ymweld, yn gofyn am eu barn a'u sylwadau.

Pa bynnag ddull(iau) a ddefnyddiwch chi, gwnewch yn siŵr bod gofyn am adborth yn dod yn rhan reolaidd o'ch gweithgarwch hyrwyddo ac nid yn rhywbeth rydych yn ei wneud bob hyn a hyn.

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

HYRWYDDO'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU



## BLWYDDYN YR AWYR AGORED 2020-2021

Mae'r ymgyrch farchnata ddwy flynedd hon sy'n cael ei rhedeg gan Croeso Cymru yn wahoddiad i ymwelwyr a thrigolion Cymru ddathlu'r awyr agored.

Mae profiadau awyr agored wedi bod wrth wraidd teithio byd-eang ers erioed. Heddiw, yn fwy nag erioed, mae ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng ein profiad o deithio, y dirwedd a'n hymdeimlad o le. P'un ai ein bod yn meddwl am ddylunio mewnol, iechyd a llesiant neu fwyd, rydym yn gwerthfawrogi'r awyr agored. Wrth wneud hynny, rydym yn meithrin gwell dealltwriaeth o'n llesiant meddyliol a chorfforol, ac o fanteision cysylltiad cryf â natur a'r awyr agored.

Yng Nghymru, mae perthynas gynhenid wedi bod rhwng pobl a'r awyr agored ers erioed. Nid yn unig mae ein tirweddau'n ysbrydoli; maen nhw'n llawn hanes byw iaith a diwylliant hynafol. Mae'r emosiynau dwys a ysgogir gan yr awyr agored yng Nghymru wedi ysbrydoli beirdd, ysgrifenwyr ac arlunwyr ers canrifoedd.

Y cysyniad cyffredinol ar gyfer ymgyrch Blwyddyn yr Awyr Agored yw Cymru fel gwlad sy'n cynnig "croeso heb furiau". Yr Awyr Agored Arbennig.

Wrth wraidd yr ymgyrch mae'r nod o fynegi'r Gymru go iawn. Nid dim ond y cynnyrch i dwristiaid ond y croeso a'r teimlad o gymuned, gan gysylltu'r awyr agored ag iechyd a llesiant. Bydd digwyddiadau diwylliannol hefyd yn rhan fawr o ymgyrch eleni.

**Dyma Gymru. Dyma Groeso...**
sy'n cael ei ddefnyddio i ysgogi pobl, gan eu hysbrydoli i "ymweld â'r Gymru go iawn". Mae gan 'check in/dyma groeso' bosibiliadau diddiwedd ar gyfer ei ddefnyddio'n ddigidol – pobl yn darganfod llety, cynnyrch, gweithgareddau a thirweddau wrth deithio trwy Gymru.

**Dysgwch fwy am ymgyrch Croeso Cymru a sut y gall eich helpu i farchnata eich busnes yn:**

- 2020  Blwyddyn Awyr Agored
- Croeso i Flwyddyn Awyr Agored

## I GAEL RHAGOR O SYNIADAU AM FARCHNATA EICH BUSNES, EDRYCHWCH AR Y GWEFANNAU HYN A RESTRIR ISOD.

**GWEFANNAU YMWELWYR –**
mae'r tudalennau gwe hyn yn darparu gwybodaeth i ymwelwyr â'ch ardal. Bydd gan lawer dudalennau penodol ar wyliau cerdded. Bydd hefyd yn syniad da i chi gysylltu eich gwefan â rhai o'r cyfeiriadau hyn - gall hyn wella gwelededd eich safle a helpu o ran safle eich gwefan yng nghanlyniadau Google.

- Croeso Caerdydd
- Darganfod Sir Benfro
- Eryri
- Darganfod Sir Fflint
- Canolbarth Cymru
- Darganfod Casnewydd

**Y FASNACH DWRISTIAETH –**
mae'r safleoedd hyn wedi'u hanelu'n benodol at y rhai sydd yn y busnes twristiaeth a hamdden a bydd ganddyn nhw syniadau ar hyrwyddo a sut y gallwch weithio mewn partneriaeth â marchnatwyr proffesiynol. Felly, siaradwch â swyddog twristiaeth eich awdurdod lleol i gael gwybod beth yw gwefan masnach dwristiaeth eich ardal.

- Sir Benfro
- Sir Fynwy
- Powys
- Bannau Brycheiniog
- Sir Ddinbych

HAFAN

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU HYRWYDDO’R LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU



## RAMBLERS CYMRU

Ramblers Cymru yw corff Cymraeg y sefydliad Prydeinig, The Ramblers. Ffurfiwyd Ramblers GB ym 1935, a sefydlwyd Ramblers Cymru ym 1974.

Mae Ramblers Cymru’n hyrwyddo cerdded ac mae’n chwarae rhan allweddol o ran diogelu mynediad i gefn gwlad Cymru, ond yn bwysicaf oll, mae ein gwaith yn cysylltu â deddfwriaeth a llunio polisïau sy’n gysylltiedig â chymunedau, iechyd, economeg ac amaethyddiaeth.

Mae cyfanswm o tua 6,000 o aelodau mewn saith ardal ranbarthol yn rheoli 39 o grwpiau cerdded ac yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni cerdded ac yn cefnogi gwaith mynediad ar lwybrau cerdded. Mae gan Gymru tua 33,000km o rwydweithiau llwybrau cerdded ac mae un rhan o bump (20%) o’r tir ar draws Cymru yn dir mynediad agored.

Ramblers Cymru yw gwarcheidwaid rhwydwaith y llwybrau yng Nghymru. Maen nhw’n gweithio efo’r awdurdodau lleol i helpu ymwelwyr a phobl Cymru i fwynhau cerdded ac yn gwarchod y llefydd lle rydyn ni i gyd wrth ein boddau’n cerdded. Mae’r rhwydwaith o wirfoddolwyr sy’n cynnal a chadw llwybrau ac yn ymgyrchu dros fynediad yn gwneud hyn yn bosibl.

Mae’r sefydliad yn gweithio i greu Cymru lle gall pawb fwynhau cerdded yn yr awyr agored a’r manteision sy’n dod yn sgil hynny. Mae Ramblers Cymru eisiau i Gymru gynnig mynediad o’r radd flaenaf i’r awyr agored a natur, gan gynnwys rhwydwaith llwybrau sy’n cael ei gadw’n dda a’i werthfawrogi. Trwy gerdded maen nhw’n cysylltu pobl â’u milltir sgwâr.

Wrth wraidd hanes y Ramblers mae’r achos arwyddocaol lle cafwyd tresmasu torfol ar Kinder Scout ac mae’n bosibl nodi’r safiad hwnnw fel man cychwyn mudiad mynediad a arweiniodd at sefydlu Parciau Cenedlaethol a llwybrau cerdded pellter hir, gan gynnwys Llwybrau Cenedlaethol.

Mae’r Llwybrau Cenedlaethol wrth wraidd y mynediad rhagorol y mae Ramblers Cymru am ei gael yng Nghymru ac mae’n amlwg o’u gweithgarwch yn y gorffennol wrth helpu i greu a chynnal Llwybrau Cenedlaethol, bod Ramblers Cymru wedi ymrwymo o ddifrif i’w dyfodol a’r defnydd ohonynt gan genedlaethau’r dyfodol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn

RAMBLERS CYMRU


## CREU CYNIGION ARBENNIG

Fel rhan o unrhyw fenter marchnata, mae cynigion arbennig yn ffordd dda o ddenu a chynnal diddordeb cwsmeriaid yn eich cynnyrch a’ch gwasanaethau. O’u cynllunio’n ofalus, does dim angen iddyn nhw olygu cost sylweddol i chi bob tro ac o ystyried y busnes ychwanegol a gynhyrchir o’u herwydd, gallan nhw fod yn ddull cost effeithiol dros ben o gynyddu gwerthiant.

Unwaith eto, gall y Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru fod o gymorth. Edrychwch ar y digwyddiadau yn eich ardal, o deithiau cerdded ysgafn a theithiau Ramblers Cymru i wyliau a dathliadau. Mae’r rhain i gyd yn rhoi cyfle i chi hyrwyddo eich busnes.

Felly, beth am:

- Gynnal cystadleuaeth ar eich gwefan i gysylltu â digwyddiad ar hyd Llwybr Clawdd Offa, Llwybr Glyndŵr neu Lwybr Arfordir Sir Benfro.
- Cynnig disgownt i gerddwyr ar eich cynhyrchion a’ch gwasanaethau.
- Darparu “Brecwast Cerddwyr” arbennig sy’n arddangos cynnyrch ffres, Cymreig.
- Darparu mapiau am ddim, lifftiau i fan cychwyn taith gerdded, rhifau cyswllt ar gyfer tacsis.
- Hysbysebu’r ffaith bod gan eich gwesty neu lety wely a brecwast gyfleusterau arbennig ar gyfer cerddwyr – fel ystafell ar gyfer sychu offer cerdded gwlyb.
- Creu cerdyn ffyddlondeb i wobrwyo cerddwyr y Llwybrau Cenedlaethol sydd wedi dychwelyd atoch dro ar ôl tro.
- Rhoi mapiau am ddim i westeion.




### DEFNYDDIO’R GYMRAEG

Mae ein hiaith unigryw yn fantais fawr. Mae defnyddio’r Gymraeg yn ffordd wych o wneud eich busnes yn unigryw. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig amrywiaeth o ganllawiau ac awgrymiadau ar sut i gyflwyno’r iaith i waith bob dydd eich busnes. Ewch i

COMISYNYDD Y GYMRAEG

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

# SUT I DDATBLYGU YMGYRCH FARCHNATA

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU
## SUT I DDATBLYGU YMGYRCH FARCHNATA

Y ffordd orau o hyrwyddo eich busnes i gerddwyr sy'n defnyddio'r Llwybrau Cenedlaethol ar gost isel iawn yw defnyddio ystod eang o gyfryngau a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'ch busnes ac yn gyfarwydd ag ef.

Caiff ymgyrchoedd marchnata llwyddiannus eu cynllunio ymlaen llaw bob tro – gan nodi efallai dri neu bedwar prif gyfle i gyfathrebu yn ystod y flwyddyn er mwyn creu ymgyrch sylfaenol.

Ar bob un o'r achlysuron hyn, defnyddiwch wybodaeth a fydd yn apelio at ddiddordebau cerddwyr nodweddiadol y Llwybrau, sef y pedwar grŵp allweddol yma:

- **CYPLAU HŶN –**
  y rhai ar incwm uwch sy'n arbennig o hoff o'r atyniadau hanesyddol y gallan nhw eu gweld yn ystod eu teithiau cerdded.
- **CYPLAU SY'N CHWILIO AM FANNAU PRYDFERTH –**
  y rhai yn y grwpiau oedran 40+ sy'n briod, ond sydd heb blant ifanc yn byw gyda nhw, ac sy'n mwynhau golygfeydd hardd ac atyniadau a chefn gwlad hyfryd.
- **TEULUOEDD –**
  y rhai sydd â rhieni o dan 50 oed a phlant o dan 15 oed. Maen nhw'n cymryd gwyliau'n aml, yn anturus ac yn hoffi dysgu am dreftadaeth leol.
- **CRWYDRWYR SYDD DDIM Â THEULU ETO –**
  pobl a chyplau sydd o dan 35 oed ac sy'n mynd ar wyliau'n aml, ac sydd â diddordeb arbennig mewn ymweld â mannau diddorol.

### BETH YW EICH STORI CHI?

Mae angen i bopeth a wnewch chi wrth farchnata atgoffa pobl o'ch Pwynt Gwerthu Unigryw (USP) – y peth sy'n eich gwneud yn wahanol ac yn well na phawb arall, ac yn berthnasol i gerddwyr.

Unwaith y byddwch wedi penderfynu beth yw hynny, mae angen rhesymau, neu "fachau", y gallwch eu defnyddio i gyfathrebu'r USP hwnnw'n rheolaidd dros amser.

Meddyliwch am eich busnes, beth sydd wedi digwydd yn ddiweddar a beth sydd i ddod cyn bo hir. Edrychwch i weld pa ddigwyddiadau sydd yn eich ardal ac yn y cyffiniau a phenderfynwch sut y gallwch chi gysylltu â nhw i greu stori. Ydych chi'n gwneud buddsoddiad newydd, yn cyflogi staff newydd? Ydych chi'n lansio cynnyrch neu fenter newydd ar gyfer cerddwyr? Ydych chi wedi denu ymwelwyr sy'n cerdded y llwybrau o ben draw'r byd? A yw eleni yn flwyddyn arwyddocaol i chi fel busnes?

Dyma'r math o wybodaeth y gallwch ei throi'n gyfleoedd marchnata a'i defnyddio i hyrwyddo eich USP.

### ANFONWCH EICH GWYBODAETH AT AMRYWIAETH O GYHOEDDWYR, GAN GYNNWYS:

#### Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL:

Efallai fod gennych bresenoldeb eisoes ar Facebook, Twitter neu Instagram yn benodol – mae'r rhain yn llwyfannau allweddol ar gyfer rhyngweithio â darpar gwsmeriaid, cyhoeddi gwybodaeth a sylwadau ac ymateb i'r hyn y mae eraill yn ei ddweud. Ond gallwch hefyd eu defnyddio mewn ffordd strwythuredig, gan gynllunio gweithgarwch wedi'i ganolbwyntio o gwmpas eich gweithgarwch marchnata arfaethedig.

Gallwch ddefnyddio hashnodau i ehangu eich cynulleidfa. Hashnodau allweddol Croeso Cymru sy'n berthnasol i'r Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru yw #FyNghymru #darganfodcymru #cymru #FindYourEpic, #Wales, #discoverwales a #gwladgwlad, ond gallwch hefyd ddefnyddio hashnodau sy'n cysylltu â'r Llwybrau unigol ... #LlwybrGlyndwr, #LlwybrClawddOffa, #LlwybrArfordirPenfro, #llwybraucenedlaethol, #llwybrarfordircymru, #arfordirpenfro, #NationalTrails, #nationaltrail, #offasdyke, #specialoffa, #walescoastpath, #pembscoast, #pembscoastpath, #Borderlands, #glyndwrsway .... ac i gerdded yn gyffredinol: #cerddedcymru, #arfordircymru, #arfordir, #cerddedcymru, #coastofwales, #walescoast, #coast, #coastal, #walking, #Welshcoast, #walkingwales, #longdistancewalking

Cofiwch ddilyn cyfrif Twitter eich llwybr @glyndwrsway, @PembsCoast neu @OffasDykePath, yn ogystal â chyfrif y Llwybrau Cenedlaethol, @NationalTrails.
Tagiwch nhw ar eich negeseuon er mwyn ymgysylltu. Edrychwch ar bwy y maen nhw'n eu dilyn i weld a oes cyfleoedd i ymgysylltu, hyd yn oed os mai dim ond aildrydar neu rannu neges wnewch chi, a meddyliwch sut y gallwch chi blethu'r llwybrau i mewn i'ch gweithgarwch chi ar y cyfryngau cymdeithasol.

HAFAN

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU
SUT I DDATBLYGU YMGYRCH FARCHNATA



## PAPURAU NEWYDD, RADIO, CYLCHGRONAU A THELEDU:

O wefannau cymunedol i gyhoeddiadau rhanbarthol a chenedlaethol a chylchgronau arbenigol, mae amrywiaeth enfawr o gyhoeddwyr a allai arddangos gwybodaeth am eich busnes. I ddysgu mwy am sut i gysylltu â nhw a chyflwyno eich stori, ewch i Cysylltu â'r Cyfryngau yn y pecyn cymorth hwn

Cysylltu â'r Cyfryngau

## BLOGWYR:

Manteisiwch ar y gymuned fawr sydd i'w chael ar-lein o bobl sy'n ysgrifennu am gerdded, teithio a gwyliau, neu am Gymru fel lle i ymweld â hi. Os ydych chi'n cynnig cynnyrch ar gyfer teuluoedd, plant neu gŵn, chwiliwch am flogwyr sy'n ysgrifennu ar gyfer y rhain a llawer o farchnadoedd arbenigol eraill hefyd. Beth bynnag yw eich arbenigedd, o wneud mymryn o ymchwil ar-lein, gallwch greu rhestr o flogwyr i gysylltu â nhw â'ch gwybodaeth mewn dim o dro. Rhowch rywbeth fel "blogwyr cerdded/ walking bloggers" yn eich chwilotwr.

## RHWYDWEITHIAU ARBENIGOL:

Gallwch dargedu sefydliadau a chymdeithasau arbenigol sy'n ymwneud â cherdded, gweithgareddau awyr agored, bwyd a diod, hanes lleol – unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r busnes rydych yn ei redeg a'r hyn y gallwch ei gynnig i gerddwyr y Llwybrau Cenedlaethol.

## PARTNERIAETHAU CYMUNEDOL LLEOL:

Yn lleol, gallwch ddod o hyd i gymdeithasau twristiaeth a grwpiau busnes sy'n gweithio i hyrwyddo eich ardal leol – mae'n werth manteisio ar y rhain a rhoi'r diweddaraf iddyn nhw am eich stori, er mwyn iddyn nhw allu trosglwyddo'r manylion. Byddan nhw hefyd yn cynnig cysylltiadau ar gyfer datblygu gweithgareddau hyrwyddo ar y cyd â busnesau sy'n ategu eich busnes chi. Am fwy o fanylion ewch i Cydweithio yn nes ymlaen yn y pecyn cymorth hwn.

Cydweithio

HAFAN



LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## SUT I YSGRIFENNU DATGANIAD I'R WASG

# SUT I YSGRIFENNU DATGANIAD I'R WASG

## SUT I YSGRIFENNU DATGANIAD I'R WASG

**Yn y bôn mae angen i ddatganiad i'r wasg ateb chwe chwestiwn sylfaenol: pwy, beth, ble, pryd, pam a sut.**

- Mae angen "ongl" newyddion ar eich stori - mae'n rhaid i chi allu mynegi beth rydych chi eisiau siarad amdano wrth y cyfryngau fel y cyntaf, y mwyaf newydd, y mwyaf, y lleiaf, neu rywbeth sy'n garreg filltir, yn record, yn ben-blwydd ac ati - neu rywbeth hynod.

- Dylai eich datganiad i'r wasg fod wedi'i ysgrifennu mewn e-bost – peidiwch â'i atodi i e-bost fel dogfen ar wahân - mae'n cymryd amser i agor ac efallai na fydd hyd yn oed hyd yn oed yn mynd drwy wal dân eich derbynnydd yn y cyfryngau.

- Ysgrifennwch bennawd byr sy'n bachu'r sylw ar gyfer pwnc yr e-bost, sy'n adlewyrchu eich "ongl" – h.y. y cyntaf, y mwyaf newydd, y mwyaf, y lleiaf, ac ati. Yn yr e-bost ei hun, dechreuwch gyda'r geiriau NEWS RELEASE/DATGANIAD NEWYDDION a rhowch y pennawd sydd yn y blwch pwnc unwaith eto.

- Mae'n bwysig bod yr holl wybodaeth bwysig yn ymddangos yn amlwg ar gychwyn y datganiad. Fydd newyddiadurwr ddim yn darllen mwy na pharagraff neu ddau er mwyn penderfynu a yw'r stori'n werth ei hystyried.

- Er na ddylech ysgrifennu hysbyseb ar gyfer eich busnes, mae rhoi hŷs-bŷs bach iddo'n berffaith iawn! Ond peidiwch â mynd dros ben llestri. Yn gyffredinol, cadwch fanylion am eich busnes yn yr ail neu'r trydydd paragraff, a'u mynegi'n ffeithiol heb roi unrhyw sylwadau.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys eich manylion cyswllt ar ddiwedd y datganiad – a gwnewch yn siŵr eich bod ar gael os ydyn nhw'n ffonio! Er enghraifft, ysgrifennwch ar waelod y datganiad: Gwybodaeth bellach gan Tom Smith, rheolwr tomsmith22@gmail.com 0234 456375

Cymerwch olwg ar Enghreifftiau o Arferion Gorau ar ddiwedd y Pecyn Cymorth i weld datganiad enghreifftiol i'r cyfryngau.

## CYSYLLTU Â'R CYFRYNGAU

Bydd ychydig o ymchwil ar y we yn dweud wrthych pa bapurau lleol sy'n gweithredu yn eich ardal darged, pa deitlau arbenigol sy'n cwmpasu meysydd o ddiddordeb sy'n berthnasol i'ch busnes, a sut i gysylltu â nhw.

Penderfynwch pa fath o gyfryngau y bydd eich straeon yn apelio atyn nhw. Mae hyn mewn gwirionedd yn fater o ba mor "newydd" yw rhywbeth. Gallwch fod yn gwneud rhywbeth nad yw wedi cael ei wneud yn eich ardal leol erioed, a bydd hynny o ddiddordeb i'r cyfryngau lleol, hyd yn oed os yw eisoes wedi cael ei wneud mewn mannau eraill yn y wlad. Nid yw'n mynd i apelio at bapur newydd cenedlaethol o Lundain, oherwydd ei fod yn gwybod ei fod eisoes wedi digwydd yn rhywle arall. Ond os nad yw'r hyn rydych chi'n ei wneud erioed wedi cael ei wneud yn y DU o'r blaen – rhowch eich bryd ar bapurau cenedlaethol y DU.

Cofiwch ystyried amseriadau pan fyddwch chi'n cysylltu â'r cyfryngau. Os oes gennych chi ddigwyddiad ar y gweill, er enghraifft, bydd angen i chi roi gwybod i'r cyfryngau mewn da bryd – ar gyfer cylchgronau gall hynny fod yn nifer o fisoedd ymlaen llaw.

## CYSYLLTU

Cysylltwch mewn da bryd. Ceisiwch wneud cyswllt cychwynnol dros y ffôn gyda'r ddesg newyddion i gyflwyno eich stori – ar ôl y sgwrs gallwch anfon datganiad i'r wasg. Weithiau, bydd angen i chi e-bostio datganiad i'r wasg yn gyntaf, ac yna gallwch drefnu galwad ffôn os yw'n ennyn diddordeb. Peidiwch ag anghofio Twitter hefyd fel ffordd o gysylltu â'r cyfryngau – mae'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd y dyddiau hyn fel y lle cyntaf mae newyddiadurwr yn chwilio am wybodaeth, a'r lle cyntaf maen nhw'n cyhoeddi eu straeon eu hunain.

HAFAN

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## CAEL Y GORAU O'CH GWEFAN

# CAEL Y GORAU O'CH GWEFAN

**Mae pobl sy'n pori gwefannau er mwyn penderfynu ble i fynd, aros neu fwyta yn enwog am fod yn anwadal; os nad ydyn nhw'n hoffi golwg eich gwefan o'i chymharu ag eraill neu os nad ydyn nhw'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth maen nhw ei heisiau o fewn ychydig eiliadau, byddan nhw'n mynd i rywle arall.**

Cyfrinach gwefan sy'n perfformio'n dda yw un y gellir dod o hyd iddi yn y lle cyntaf, sy'n lân, sy'n syml, ac sy'n hawdd ei defnyddio, ac yn galluogi'r ymwelydd i gael y wybodaeth sydd ei hangen arno'n gyflym a chymryd y camau rydych am iddo'u cymryd.

Os oes gennych ddigon o gyllideb, mae cwmni dylunio gwefannau proffesiynol yn ffordd dda o greu eich safle. Yn yr un modd, gallwch adeiladu un eich hun gydag un o'r nifer o becynnau rhagorol, hawdd eu defnyddio sydd bellach ar gael ar-lein.

Y naill ffordd neu'r llall, mae rhai awgrymiadau allweddol y mae angen i chi eu cadw mewn cof pan fyddwch chi'n datblygu eich safle – neu pan fyddwch chi'n briffio eich cwmni gwe i wneud y gwaith.

**Ystyriwch ddod yn aelod o Croeso i Gerddwyr/Walkers are Welcome. Gallwch gofrestru eich diddordeb yn** Walkers are Welcome. Ar ôl i'ch aelodaeth gael ei chymeradwyo, byddwch yn gallu lawrlwytho ystod o wybodaeth ddefnyddiol – gallwch hyd yn oed lawrlwytho logo Croeso i Gerddwyr i'w ddefnyddio ar eich gwefan.

Gallwch hefyd roi dolen i wefan Llwybrau Cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yn: Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ychwanegu gwerth at eich gwefan.

## BYDDWCH YN GRYNO

Er y gall fod yn demtasiwn llenwi gwefan â llawer iawn o wybodaeth fanwl, anaml y mae ymwelydd yn chwilio am hynny. Mae sylw pobl yn crwydro, ac maen nhw am gael gwybodaeth mewn pytiau bach.

Cofiwch ddefnyddio geiriau allweddol ar eich gwefan sy'n adlewyrchu Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru yn eu hanfod - cerdded, cefn gwlad, treftadaeth, hanes a Chymru. Bydd hyn yn helpu eich safle i ddod i'r amlwg pan fydd pobl yn chwilio gan ddefnyddio'r geiriau hyn.

## CADWCH Y WEFAN YN DWT AC YN DACLUS

Gwnewch yn siŵr bod eich testun yn ddarllenadwy ac nad yw'n cael ei guddio gan ddelweddau cefndir neu elfennau animeiddiedig sy'n tynnu'r sylw. Gwyn yw'r cefndir gorau yn aml – gall geiriau ar ben lluniau neu gefndiroedd lliw fod yn anodd i rai eu darllen.

Os ydych am i ddefnyddiwr glicio ar ddolen i ran arall o'ch safle, gwnewch yn siŵr bod y ddolen honno'n amlwg gyda lliw neu linell oddi tani. Peidiwch â'u gorfodi i ddyfalu lle mae angen iddyn nhw glicio.

## MYNEDIAD O BOB DYFAIS

Os ydych yn edrych ar gynnwys y Pecyn Cymorth hwn yn eich swyddfa ar gyfrifiadur, mae'n debyg eich bod yn ymhlith y lleiafrif sy'n gwneud hynny. Mae niferoedd enfawr o bobl bellach yn pori'r we ac yn gwneud penderfyniadau prynu ar eu ffonau clyfar a thabledi. Gwnewch yn siŵr bod modd gweld eich gwefan ar bob dyfais.

## CYSYLLTWCH Â'CH CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cysylltwch eich gwefan yn agos â'ch gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol, gan ddiweddaru'r llwyfannau hyn gyda dolenni sy'n tynnu sylw at gynnwys newydd ar eich safle. Po fwyaf y mae pobl yn trydar am eich gwefan neu'n ei hoffi ar Facebook yr uchaf y bydd statws eich gwefan yn y peiriannau chwilio.

## DELWEDDAU

Mae'r gystadleuaeth yn ffyrnig, a bydd ymwelwyr ar y we yn disgwyl delweddau o ansawdd da, heb os, y dyddiau hyn cyn edrych ar wefan o ddifrif. Mae ffotograffau a fideo o ansawdd uchel o'r Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y Pecyn Cymorth hwn i chi eu defnyddio'n rhad ac am ddim - ewch i

HAFAN



## GWNEWCH HI'N HAWDD PRYNU

Os ydych chi'n gwerthu drwy siop ar-lein neu'n cymryd archebion ar-lein, gwnewch y broses yn un hawdd. Buddsoddwch mewn cert siopa da a chynigiwch gyfleusterau fel cerdyn credyd ac opsiynau talu ar-lein eraill, fel PayPal. Os ydych chi'n penderfynu defnyddio safle archebu trydydd parti, gwnewch yn siŵr bod y cysylltiad â nhw yn cael ei ddangos yn glir. Y lleiaf o "gliciau" sydd cyn talu, y lleiaf o gwsmeriaid y byddwch chi'n eu colli.

## GWNEWCH HI'N HAWDD I BOBL GYSYLLTU Â CHI

Mae gormod o wefannau y dyddiau yma sydd ddim yn rhoi enwau a rhifau cyswllt, gan guddio y tu ôl i nodyn amhersonol fel "Cwblhewch y ffurflen isod i gysylltu â ni". Mae'n annymunol ac yn ddigroeso. Rydych chi yn y byd lletygarwch! Rhowch eich enw, eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost iddyn nhw a'u rhoi mewn man amlwg.

## DIWEDDARWCH YN RHEOLAIDD

Bydd cynnwys cyfredol da yn ennyn diddordeb eich ymwelwyr ac yn eu hannog i ddod yn ôl. Mae rhoi manylion eich cynnig Nadolig yn syniad gwych ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, ond pan fydd ymwelwyr i'ch gwefan yn dal i ddarllen amdano ym mis Ionawr, mae'n dweud: "Does dim llawer o ots gennym ni am hyn!".

## DARPARWCH GYNNWYS SY'N RHOI GWERTH YCHWANEGOL

Mae pobl am wybod amdanoch, ydyn, ond darparwch wybodaeth ddefnyddiol ychwanegol i ddal eu sylw a dangos iddyn nhw eu bod yn cael eu gwerthfawrogi – sut i gyrraedd eich llwybr lleol, amserlenni bysiau lleol, gwasanaethau tacsi lleol, amseroedd gyrru, toiledau cyhoeddus neu breifat sydd ar gael i gerddwyr yn eich ardal, pwyntiau ail-lenwi dŵr am ddim yn lleol a llwybrau da i'ch cyrraedd chi, atyniadau eraill gerllaw, gwybodaeth am ddiogelwch ac ati. Cymerwch olwg ar adran Deunyddiau Marchnata y Pecyn Cymorth hwn ar gyfer syniadau a deunyddiau y gellir eu lawrlwytho I chi eu defnyddio ar eich safle.

Cymerwch olwg ar adran Enghreifftiau o Arferion Gorau y Pecyn Cymorth ar gyfer mwy o syniadau ynglŷn â'r we.

HAFAN

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## DEFNYDDIO FIDEO




# PAM DEFNYDDIO FIDEO?

**Rydyn ni i gyd wrth ein boddau'n gwylio fideos. Maen nhw'n un o'r ffyrdd gorau o gael gafael ar wybodaeth yn gyflym ac mewn ffordd ddifyr.**

Mae'n debyg bod gennych chi ffôn clyfar neu dabled, felly rydych chi eisoes ar y ffordd i allu creu eich fideos eich hun am yr hyn y gall eich busnes ei gynnig i bobl sy'n cerdded y Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru!

Mae fideos yn rhoi'r cyfle gorau i ddangos personoliaeth neu awyrgylch eich busnes, gan roi argraff llawer llawnach i wyliwr o'r hyn sy'n cael ei gynnig.

Gallwch eu defnyddio ar eich gwefan, rhoi dolenni iddyn nhw ar y cyfryngau cymdeithasol neu wrth anfon gwybodaeth at eich cwsmeriaid, neu eu dangos mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd y gallech fod yn eu mynychu.

Mae'r canlyniadau gorau bob amser yn mynd i ddod drwy ddefnyddio cwmni proffesiynol i wneud fideo, er na fydd hynny o fewn cyllideb pawb. Ond nid yw hynny'n golygu na allwch greu eich fideos unigryw eich hun gyda dim ond ychydig o fuddsoddiad ac ychydig o amser.

## CREU FIDEO

- Beth sy'n gwneud eich busnes chi'n wahanol i unrhyw un arall? Beth yw'r darn allweddol o wybodaeth rydych chi am i'r gwyliwr ei gofio? Pa gynnig arbennig y gallwch chi ei wneud i gael pobl sy'n cerdded y llwybrau i gamu oddi arnyn nhw am gyfnod ac ymweld â chi?
- Beth yw personoliaeth eich busnes – tawel ac ymlaciol, traddodiadol, gwahanol neu gyffrous? Mae angen i'r fideo adlewyrchu hynny.
- A yw eich busnes yn ddibynnol ar y tywydd / tymor? Dylai'r ffilmio ddigwydd ar yr adeg yn y tymor pan fydd yn edrych ar ei orau – yn ddelfrydol ni fydd yn bwrw glaw, bydd dail ar y coed, bydd popeth yn edrych yn ffres ac yn lân, a bydd yn edrych yn brysur, gyda phobl hapus yn mwynhau'r hyn rydych chi'n ei gynnig, felly bydd angen i chi ddewis yr amser gorau o'r flwyddyn i gyflawni hynny i gyd.
- Beth ydych chi am i'ch gwyliwr ei wneud? Eich ffonio? Eich e-bostio? Mynd ar-lein i gael mwy o wybodaeth? Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys "galwad i weithredu".
- Cadwch y fideo'n fyr. Mae hyd at dair munud o hyd yn ddigon - ni all unrhyw beth ddal eu sylw'n hirach na hynny. Rydych chi am gyffroi'r gwyliwr gyda blas o'r hyn sy'n cael ei gynnig, nid ymdrin â phopeth yn fanwl iawn – dyna yw gwaith y wefan neu'r llyfryn.

HAFAN

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU
DEFNYDDIO FIDEO

HAFAN

## CYNGHORION AR GYFER SAETHU EICH FIDEOS EICH HUN:

- Yn realistig, faint o amser allwch chi ei roi i wneud hyn? Fel eich cyfrifoldebau marchnata eraill, mae'n ymrwymiad arall y mae'n rhaid i chi ei amserlennu. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid i chi drefnu amseroedd penodol iawn hefyd – os ydych chi am ffilmio pobl yn gwneud gweithgaredd, byddan nhw yno ar ddiwrnod ac amser penodol - a bydd rhaid i chi fod hefyd!
- Cynlluniwch sut y bydd eich fideo yn rhedeg o'r dechrau i'r diwedd. Dyma'r "bwrdd stori" - rhestr o gynnwys a golygfeydd yn y drefn y byddan nhw'n ymddangos.
- Meddyliwch am y math o fideo rydych chi ei eisiau – delweddau o lefydd yn unig, gyda thrac cerddoriaeth? Delweddau gyda "throslais"? Pobl yn cael eu ffilmio am yr hyn maen nhw'n ei wneud, yn siarad â'r camera, neu'n siarad â rhywun "y tu hwnt i'r camera", fel cyfweliad newyddion ar y teledu? Byddwch yn ofalus - gall y cyntaf o'r opsiynau hyn fod braidd yn ddiflas os nad ydych chi'n ofalus – tra bod pobl yn siarad yn llawn cyffro am y profiad a gawsant gyda chi yn llawer mwy difyr ac yn rhoi cipolwg gwell ar eich busnes.
- Offer – bydd eich ffôn symudol yn gwneud y tro'n iawn! Mae camera fideo amlddefnydd yn ddefnyddiol os gallwch gael gafael ar un. Ond y cynnwys yw'r peth pwysicaf.
- Ystyriwch fuddsoddi mewn meicroffon allanol ar gyfer eich ffôn symudol. Un o nodweddion fideos sydd wedi'u saethu mewn modd amatur yw mai prin y gallwch glywed beth mae pobl yn ei ddweud. Bydd meicroffon o ansawdd da yn codi ansawdd a phroffesiynoldeb eich fideo ar unwaith.
- Mae angen i chi olygu yn hytrach na dim ond pwyso "record" a gobeithio am y gorau. Dydy fideo heb ei olygu ddim yn edrych yn broffesiynol. Mae digon o becynnau golygu rhad, hawdd i'w defnyddio ar-lein. Mae angen rhywfaint o fuddsoddiad o ran amser i ddod i arfer â nhw, ond bydd y canlyniadau o ran ansawdd y ddelwedd a'r sain yn eu gwneud yn werth yr ymdrech.

## BETH I'W FFILMIO

- Eich cwsmeriaid, yn dweud wrthych pa mor wych oedd eu profiad.
- Chi fel y perchennog yn esbonio eich busnes ac yn croesawu pobl iddo, neu'n siarad am gynnig arbennig. Gofynnwch i rywun eich cyfweld chi – mae'n haws na siarad â chamera.
- Cyfweliadau staff – "Fi yw'r cogydd yma a fy hoff bryd i'w goginio yw ... a dyma ni..."
- Cyfleusterau – dangoswch i gwsmeriaid yr hyn sydd gennych chi.
- Digwyddiad arbennig rydych chi wedi'i gynnal, gan ddangos yr achlysur a chynnwys sylwadau gan gwsmeriaid.
- Gwahoddwch gwsmeriaid i anfon eu fideos o'r hwyl maen nhw wedi'i gael yn eich busnes, a golygwch nhw er mwyn creu casgliadau byrion.
- Does dim rhaid i chi ffilmio'r llwybrau unigol - mae delweddau stoc ar gael i'w lawrlwytho fel rhan o'r Pecyn Cymorth hwn https://assets.wales.com
- Ystyriwch sut y bydd cynnwys eich fideo yn dylanwadu ar wylwyr – meddyliwch am eich cyfrifoldeb i annog pobl i fwynhau'r llwybrau yn ddiogel.

IECHYD A DIOGELWCH

## GOLYGU

- Ceisiwch beidio ag aros ar un saethiad/ongl – wrth ffilmio, cofiwch gael sawl safbwynt gwahanol ar yr un peth a'u golygu mewn cyfres o saethiadau sy'n newid yn rheolaidd i gynnal diddordeb.
- Cadwch eich fideo'n fyr. Unrhyw beth o 30 eiliad i 3 munud. Po fyrraf yw'r clip, y gorau ar gyfer cyfryngau cymdeithasol.
- Mae'n well cael hanner dwsin o glipiau byr ar eich gwefan, ar gael i'w gweld ar wahân, nag un fideo hir iawn. Bydd mwy o bobl yn gwylio hyd at ddiwedd fideo byr ac yn gweithredu ar ôl ei weld.
- Defnyddiwch gerddoriaeth heb hawlfraint ac ar gost isel, sydd ar gael ar-lein, fel cefndir i'ch fideos.

Cymerwch olwg ar yr enghreifftiau hyn o fideos. Mae'r ddolen gyntaf yn dangos fideos bywiog yn cael eu cyflwyno gan berchennog y busnes, tra bod yr ail ddolen yn mynd â chi i fideo hyrwyddo gyda chyfweliad yn ganolbwynt iddo.

ESAMPL FIDEO 1

ESAMPL FIDEO 2

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## DATBLYGU YMWELIADAU YMGYFARWYDDO

# DATBLYGU YMWELIADAU YMGYFARWYDDO

Mae ymweliadau ymgyfarwyddo ar gyfer y cyfryngau, neu ymweliadau FAM, pan fyddwch yn gwahodd aelodau dethol o'r cyfryngau i ymweld â'ch busnes, yn aml dros ddiwrnod neu ddau, yn ffordd wych o hyrwyddo eich cwmni.

Mae Croeso Cymru a thîm twristiaeth eich awdurdod lleol i gyd yn trefnu ymweliadau FAM ar gyfer y cyfryngau – felly cysylltwch i weld a all eich busnes chi gymryd rhan. Mae gweithio gyda phartneriaid fel hyn yn mynd â'r gofid o drefnu ymweliad FAM oddi arnoch chi a gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd gwaith cynllunio gofalus wedi digwydd er mwyn creu rhaglen ddiddorol ac amrywiol i'r ymwelwyr.

Fodd bynnag, os ydych chi'n meddwl bod gennych chi stori ddigon da i'w hadrodd yna efallai y dylech ystyried trefnu eich ymweliad FAM ar gyfer y cyfryngau eich hun drwy wahodd newyddiadurwr, blogiwr neu awdur teithio i ddod i brofi'r cyfan sydd gennych i'w gynnig yn uniongyrchol. Gyda rhywfaint o gynllunio gofalus fe welwch nad yw mor anodd â hynny.

Gwnewch restr o'r hyn sy'n ddiddorol am eich busnes – sut mae'n wahanol i un eich cystadleuwyr? Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer y dyfodol a pha fuddsoddiadau ydych chi wedi'u gwneud eisoes? Bydd meddwl yn y modd hwn yn eich helpu i weld beth sy'n wirioneddol ddiddorol am eich busnes – yr wybodaeth honno a fydd yn gwneud i newyddiadurwr ddweud: "Mae hynny'n ddiddorol – dwi am ysgrifennu am hynny".

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o gyfle i unrhyw un rydych chi'n ei wahodd i brofi pob agwedd ar eich busnes, ond hefyd i brofi digwyddiadau a gwasanaethau sy'n ychwanegu at yr hyn rydych chi'n ei wneud. Wedi'r cwbl does neb yn trefnu gwyliau penwythnos mewn gwesty, dim ond i dreulio deuddydd y tu mewn. Bydd y rhan fwyaf o ymwelwyr am ddefnyddio'r gwesty fel eu canolbwynt tra byddan nhw'n profi digwyddiadau a gwasanaethau yn yr ardal gyfagos.

Dyna pam y gall cysylltu â'r Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru fod mor ddefnyddiol, gan ei fod yn rhoi llawer o resymau i ymweld â'ch ardal, gan roi rhesymau ychwanegol i chi dros hyrwyddo eich busnesau.

Gwnewch yn siŵr hefyd eich bod yn gadael rhywfaint amser sbâr yn eich rhaglen – er mwyn caniatáu i newyddiadurwyr fynd ati i ddarganfod ar eu pennau eu hunain. Peidiwch â meddwl bod rhaid i chi lenwi pob munud gyda gweithgaredd. Yn bwysicaf oll, gwnewch yn siŵr eich bod yn eu bwydo. Hawdd os ydych chi'n fwyty neu'n westy, ond beth os ydych chi'n atyniad i ymwelwyr? Ffordd dda o ddatrys y broblem yw gweithio gyda bwyty lleol sydd ag enw da a chynllunio ymweliad FAM ar y cyd.

Wrth benderfynu pryd i drefnu ymweliad FAM, cofiwch y gallai'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau fod yn trefnu eu deunydd rai wythnosau ymlaen llaw. Ar gyfer rhai cylchgronau, mae'n debygol o fod ychydig fisoedd - felly cynlluniwch ymlaen llaw.

Cytunwch â'ch ymwelwyr yn union beth y byddwch yn ei ddarparu ac a oes unrhyw beth y mae angen iddyn nhw dalu amdano. Bydd hyn yn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth ac annifyrrwch yn nes ymlaen.

Er enghraifft, bydd y rhan fwyaf o ymweliadau FAM yn cynnwys llety a bwyd a chost unrhyw ymweliadau neu brofiadau, ond nid o anghenraid unrhyw gostau ychwanegol fel diodydd ychwanegol yn ôl yn y llety. Penderfynwch ymlaen llaw beth rydych chi'n talu amdano a gwnewch hynny'n glir i'ch ymwelwyr.

Yn olaf, cadwch mewn cysylltiad. Peidiwch ag anghofio am eich cysylltiadau yn y cyfryngau yr eiliad y maen nhw'n gadael. E-bostiwch nhw i ddiolch iddyn nhw am ymweld a gofynnwch a oes unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen arnyn nhw. Byddwch yn barod i ddarparu ffotograffau a ffeithiau a ffigurau ychwanegol os oes gofyn am hynny. Mae'r dolenni yn y Pecyn Cymorth hwn yn rhoi delweddau trawiadol i chi o'r llwybrau a'r cefn gwlad o'u hamgylch.

> LLYFRGELL FFOTOGRAFFAU CYMRU

Mae'n bwysig cofio y dylai ymweliad FAM fod yn rhan o strategaeth a fabwysiedir ar gyfer y cyfryngau – dim ond un o'r ffyrdd y byddwch yn meithrin a chynnal perthynas â newyddiadurwyr allweddol.

< HAFAN



## GWEITHIO GYDA THREFNWYR TEITHIAU A DENU YMWELWYR RHYNGWLADOL

Os ydych yn awyddus i gyrraedd cwsmeriaid rhyngwladol drwy'r diwydiant teithio, gallwch gael help gan Croeso Cymru i gefnogi a thyfu eich busnes.

## DYMA RAI O FANTEISION MEDDWL YN RHYNGWLADOL:

- Mae'n eich helpu i wrthsefyll natur dymhorol y diwydiant.
- Mae ymwelwyr rhyngwladol, ar gyfartaledd, yn gwario mwy.
- Mae amseroedd paratoi hirach ar gyfer ymweliadau rhyngwladol yn eich galluogi i gynllunio ymlaen llaw.

## I GYMRYD RHAN:

- Cofrestrwch eich cynnyrch ar y wefan hon, a hyrwyddir yn fyd-eang
- Anfonwch eich newyddion a'ch datblygiadau diweddaraf at Croeso Cymru drwy anfon e-bost at productnews@gov.wales
- Derbyniwch Gylchlythyron

  CYLCHLYTHYR

- Dewch yn aelod o UKinbound a Chymdeithas Gweithredwyr Teithiau Ewrop (ETOA) i gael mynediad i weithdai, seminarau a digwyddiadau rhwydweithio B2B.
- Mae gan Visit Britain amrywiaeth eang o ddulliau i'ch cefnogi i farchnata eich busnes yn rhyngwladol. Ewch i

  VISIT BRITAIN

  am fwy o wybodaeth.

Cofiwch ddilyn:

@CroesoCymruBus (@VisitWalesBiz)
@VisitWalesTrade
@MeetinWales
@CroesoCymru (@VisitWales)
@VisitBritainBiz
@VisitBritainPR
@VisitBritain

HAFAN

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## MANTEISIO AR Y TYMHORAU

# MANTEISIO AR Y TYMHORAU

**Mae'r Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru yn rhoi cyfle gwych i chi ymestyn y tymor ymwelwyr. Er enghraifft, mae dechrau'r gwanwyn a diwedd yr Hydref yn amser gwych ar gyfer cerdded y llwybrau, gan gynnig newidiadau dramatig o ran golygfeydd naturiol.**

Mae rhoi rheswm go iawn i gwsmeriaid ymweld â chi ar adegau tawel yn golygu y gallwch greu cyfleoedd newydd i ehangu eich busnes. Beth am gysylltu â'r cwsmeriaid hynny sy'n ymweld â chi yn yr haf gyda chynnig arbennig ar gyfer "Gwyliau ymlaciol yn cerdded Llwybr Arfordir Sir Benfro yn y gwanwyn" neu'n awgrymu "Teithiau hydrefol ar hyd Llwybr Glyndŵr"? neu "Dewch i'r Marchnadoedd Nadolig yn y trefi hanesyddol ar hyd Clawdd Offa"?

Gallwch greu cysylltiadau â gwyliau cerdded neu ddathliadau – edrychwch ar y cymorth y gallwch ei gael gan Croeso Cymru a'u hymgyrch Blwyddyn yr Awyr Agored.

BLWYDDYN AWYR AGORED

Ac i'r busnesau hynny sydd ar hyd rhannau o'r llwybrau sy'n dathlu treftadaeth adeiledig yn ogystal â golygfeydd trawiadol, mae gwyliau ar adegau tawel yn eich galluogi i hyrwyddo eich busnes ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau eraill, megis dathliadau Nadoligaidd.

Bydd yr holl weithgareddau hyn yn apelio at gerddwyr a thrwy ddweud wrthyn nhw beth yn union sy'n cael ei gynnig yn eich ardal chi rydych yn cynyddu'r rhesymau iddyn nhw ddod i ymweld.

Beth am greu tudalen gyda dyddiadur ar eich gwefan sy'n tynnu sylw at yr holl brif weithgareddau yn eich ardal. Gallech berswadio'r rhai sy'n cerdded y llwybrau i anfon lluniau o'u taith i'w hychwanegu at eich deunydd hyrwyddo. Peidiwch ag anghofio defnyddio gwefan y Llwybrau Cenedlaethol i uwchlwytho gwybodaeth ar eich digwyddiadau. Ewch i

LLWYBRAU CENEDLAETHOL

dewiswch y llwybr sydd o ddiddordeb i chi a chliciwch ar y tab "Ychwanegu eich gwybodaeth" ar ben eich sgrin.



LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## CAEL STAFF I GYMRYD RHAN

# CAEL STAFF I GYMRYD RHAN

Mae gwneud yn siŵr bod eich staff yn rhannu eich gwerthoedd busnes yn bwysig iawn, felly treuliwch amser yn dweud wrthyn nhw am y busnes, beth yw uchelgeisiau a nodau eich busnes a sut y gallan nhw chwarae eu rhan. Er enghraifft, wrth farchnata eich cynnyrch a'ch gwasanaethau i gerddwyr y Llwybrau Cenedlaethol, gwnewch yn siŵr fod eich staff yn cael eu briffio'n dda ar yr hyn sydd gan y llwybr yn eich ardal i'w gynnig, ble y gall cwsmeriaid ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol, megis manylion am deithiau cerdded, neu amserlenni bysiau.

Gwnewch yn siŵr fod eich staff yn eich helpu i hyrwyddo eich busnes drwy gynnig gofal cwsmeriaid rhagorol. Byddwch yn gweld y byddwch nid yn unig yn gallu cynnig gwell gwasanaeth, ond y bydd staff yn teimlo cymhelliant o ganlyniad i ymwneud mwy â'r gwaith o hyrwyddo'r busnes.

Beth am annog staff i dynnu lluniau o'u hoff daith gerdded a'u rhoi ar eich gwefan? Yn y modd hwn, gallan nhw ddod nid yn unig yn llysgenhadon i'r busnes, ond yn llysgenhadon i'r Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru – yn wybodus ac o gymorth i gwsmeriaid. Caffaeliad enfawr i unrhyw fusnes.



LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## CYDWEITHIO



# CYDWEITHIO

**Mae'n werth siarad â pherchnogion busnesau eraill ar hyd tri llwybr Cymru i weld sut y gallwch fynd ati ar y cyd i farchnata eich gwasanaethau. Bydd mentrau marchnata ar y cyd yn eich helpu i gyrraedd cynulleidfa fwy drwy gyfuno eich cronfa ddata o gwsmeriaid â rhai eich partneriaid busnes dewisedig. Gallant hefyd ymestyn eich arlwy o gynnyrch a gwasanaethau.**

Yn wir, does dim rheswm pam y dylech chi gyfyngu eich golygon i Gymru yn unig. Gyda'r 13 o Lwybrau Cenedlaethol yn Lloegr, gall dull marchnata ar y cyd eich rhoi mewn cysylltiad â sylfaen gwsmeriaid eang iawn.

Mae marchnata ar y cyd gyda phartneriaid busnes addas yn eich galluogi i roi mwy a mwy o wybodaeth ddiddorol ar eich gwefan ac yn eich deunyddiau marchnata, trwy arddangos cynnyrch a gwasanaethau eich partneriaid busnes ynghyd â'ch rhai chi. Mae'n gwneud eich cynnig yn llawer mwy deniadol.

Er enghraifft, mae West Wales Holiday Cottages, West Wales Holiday Cottages yn cynnig talebau disgownt ar gyfer atyniadau a busnesau ledled Cymru i ymwelwyr sy'n archebu drwy'r cwmni hwnnw. Os gallwch chi gynnig bargen arbennig drwy daleb, mae'r system yn rhad ac am ddim i ymuno, ac fe gewch eich rhestru am ddim ar y dudalen 'Pethau i'w Gwneud' ar eu gwefan. Am fanylion, cysylltwch ag Amy Williams, Rheolwr Marchnata West Wales Holiday Cottages admin@westwalesholidaycottages.co.uk

Cymdeithas Clawdd Offa (ODA) yw'r grŵp cyfeillion ar gyfer Llwybr Clawdd Offa a Chlawdd Offa, yr heneb o'r wythfed ganrif. Mae'n elusen annibynnol i aelodau a ffurfiwyd ym 1969, ac mae'n annog ac yn galluogi ymwelwyr i fwynhau a deall y Clawdd a Gororau Cymru; mae hefyd yn mynd ati i hyrwyddo a chyfrannu'n ariannol tuag at waith cadwraeth ar y clawdd. Mae'r Gymdeithas wedi'i lleoli yn Nhrefyclo yng Nghanolfan Clawdd Offa lle gall ymwelwyr weld arddangosfa am ddim ar y Brenin Offa, rheolwr Mersia yn yr wythfed ganrif, a Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Llwybr Clawdd Offa

Felly, beth am roi cynnig ar y canlynol:

- Dewis partneriaid busnes a fyddai'n gallu cydweithio'n dda â chi.
- Datblygu cynigion tymhorol.
- Darparu dolenni o'ch gwefan chi i wefannau partneriaid dethol.
- Hyrwyddo ar y cyd – er enghraifft, gallai gwesty ac atyniad i ymwelwyr hyrwyddo gwyliau cerdded am benwythnos ar y cyd gyda chyfraddau llety arbennig a disgownt ar y tâl mynediad i'r atyniad cyfagos.
- Darparu dolenni o'ch gwefan i safleoedd defnyddiol eraill – er enghraifft, rhoi dolen i dudalen Llwybr Arfordir Cymru: "Pethau i'w Gwneud"

PETHAU I'W GWNEUD

HAFAN

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU CYDWEITHIO

Dyma ddwy fenter arall y mae'n werth darllen amdanyn nhw ac ystyried rhoi dolen ar eu cyfer. Mae'r ddau sefydliad yn canolbwyntio ar ddenu cerddwyr a darparu gwybodaeth o ansawdd uchel.

## FFORDD CYMRU

Mae Ffordd Cymru yn deulu newydd o dair ffordd genedlaethol – Ffordd yr Arfordir, Ffordd Cambria a Ffordd y Gogledd.

Mae Ffordd yr Arfordir yn daith ar hyd ffordd arfordir y gorllewin o amgylch Bae Ceredigion, sy'n 180 milltir (290km) rhwng y môr a'r mynyddoedd. Mae Ffordd Cambria yn croesi asgwrn cefn Cymru am 185 milltir (300km) rhwng Llandudno a Chaerdydd, drwy Barciau Cenedlaethol a mannau gwyrdd eang. Mae Ffordd y Gogledd yn 75 milltir (120km) heibio cestyll mawreddog i Ynys Môn.

Mae'r llwybrau'n tynnu sylw at atyniadau bythgofiadwy a phrofiadau unigryw Gymreig ar hyd y ffordd: rhyfeddodau naturiol, tirnodau, trefi, orielau ac amgueddfeydd.

- Mae Ffordd Cambria (300km / 185 milltir) yn ymlwybro trwy ddau Barc Cenedlaethol: Eryri a Bannau Brycheiniog. Mae'n dechrau neu'n gorffen yn y brifddinas, Caerdydd.
- Mae Ffordd y Gogledd (125km / 75 milltir) yn mynd ar hyd arfordir y gogledd gan gynnwys dau safle â Statws Treftadaeth y Byd UNESCO.
- Mae Ffordd yr Arfordir (290km / 180 milltir) yn archwilio ehangder epig traethlin Bae Ceredigion.

FFORDD CYMRU

## CROESO I GERDDWYR

Mae Croeso i Gerddwyr yn rhwydwaith o drefi a phentrefi ym Mhrydain sydd wedi cael eu hachredu fel rhai sy'n bodloni maen prawf syml iawn - bod yn groesawgar i gerddwyr. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer manteision economaidd twristiaeth sy'n seiliedig ar gerdded, gan gynnwys monitro llwybrau troed a chyfleusterau lleol a gweithio mewn partneriaeth a chyda chynghorau lleol. Mae'r cymunedau hefyd yn hyrwyddo cerdded er lles iechyd trigolion, ynghyd â manteision llesiant meddyliol.

### Y nodau yw annog a chefnogi trefi a phentrefi i:

- Fod yn fannau atyniadol i gerddwyr gan ddarparu gwybodaeth o'r ansawdd gorau am deithiau cerdded lleol.
- Cynnig cyfleoedd cerdded rhagorol i bobl leol ac ymwelwyr o fewn eu hardaloedd.
- Sicrhau bod llwybrau cerdded a chyfleusterau i gerddwyr yn cael eu datblygu, eu cynnal, eu gwella a'u harwyddo'n dda.
- Cyfrannu at strategaethau twf ac adfywio busnes cynlluniau twristiaeth lleol.
- Cael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel y lle gorau ar gyfer cerddwyr sy'n chwilio am leoliadau gwych ar gyfer teithiau cerdded a gwyliau yn y DU.
- Hyrwyddo manteision iechyd cerdded a chynyddu cyfranogiad ym mhob rhan o'r gymuned.
- Annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

CROESO I GERDDWYR

Mae ennill statws achrededig yn dibynnu ar argyhoeddiad y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol bod unrhyw gais yn fenter 'o'r gwaelod i fyny' o'r gymuned leol. Mae'r broses yn defnyddio cyfnod Aelodaeth Dros Dro a rhoddir y defnydd o Fentor i gyrraedd achrediad.

Unwaith y caiff ei dderbyn i'r rhwydwaith, gall yr aelod uwchlwytho proffil i'r wefan genedlaethol a gall ymwelwyr â'r wefan ddod o hyd i'r aelod ar y map, a thrwy hynny gysylltu'n uniongyrchol â gwefan yr aelod.

Mae rhwydwaith cynyddol o gymunedau Croeso i Gerddwyr yng Nghymru sydd hefyd yn caniatáu ar gyfer rhwydweithio a rhannu arferion gorau ac arloesedd er mwyn datblygu cymunedau Croeso i Gerddwyr ffyniannus yn y ffordd orau posibl.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Croeso i Gerddwyr neu cysylltwch a'r Ysgrifennydd**
secretary@walkersarewelcome.org.uk

HAFAN

LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS



# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU


# DEUNYDDIAU MARCHNATA

LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

DEUNYDDIAU MARCHNATAS

# DEUNYDDIAU MARCHNATA

Torrwch a gludwch neu lawrlwythwch yr adnoddau hyn ar gyfer eich gwefan, gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol, taflenni a llyfrynnau ystafelloedd gwely er mwyn rhoi gwybodaeth werthfawr i'ch cwsmeriaid a fydd yn gwella eu hymweliad.




## CANLLAWIAU BRANDIO

Mae'r canllawiau hyn yn darparu manylebau manwl ar gyfer pob fformat Llwybr Cenedlaethol. Eu nod yw parchu hynodrwydd lleol y llwybrau unigol gan annog dull marchnata cydlynol ar gyfer y teulu o Lwybrau Cenedlaethol.

Mae'r canllawiau'n cynnwys fersiynau o'r logo, ffurfdeipiau corfforaethol a lliwiau Llwybrau ac maen nhw'n berthnasol i ddeunydd brandio Cymraeg a Saesneg.

CANLLAWIAU BRANDIO'R LLWYBRAU CENEDLAETHOL

## CYFFREDINOL

Dyma amrywiaeth o waith celf y gellir ei lawrlwytho y gallwch ei ddefnyddio ar eich gwefan neu mewn deunydd marchnata arall.

- Cerdded y Llwybrau
- Amserlenni bysiau
- Amserlenni trenau
- A Wyddoch Chi? (Ffeithiau anhygoel am y Llwybrau)
- Teithiau cerdded tymhorol ar hyd y Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru
- Cerdded iach
- Cadw'n ddiogel
- Cynnig arbennig

## E-GYLCHLYTHYR




LLAWRLWYTHO (ENG)

LLAWRLWYTHO (CYM)

## NEGES CROESO I GERDDWYR MEWN IEITHOEDD TRAMOR ALLWEDDOL

Cymraeg: Croeso i gerddwyr
Ffrangeg: Marcheurs bienvenus
Almaeneg: Wanderer willkommen
Eidaleg: Camminatori benvenuti
Iseldireg: Wandelaars welkom
Sbaeneg: Caminantes bienvenidos

HAFAN

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU DEUNYDDIAU MARCHNATAS

## MANTEISION CERDDED Y LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU AR GYFER IECHYD

I rai pobl, gall bod yn yr awyr agored fod yn hollbwysig i'w hiechyd. Mae grwpiau sy'n hyrwyddo cerdded fel modd o wella iechyd yn ffenomen fwyfwy cyffredin ledled Cymru.

Mae'r Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd gwych i bobl o bob gallu gychwyn ar gerdded tuag at well iechyd.

Gall cerdded yn gyflym fod o fudd i iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol ac mae'n rhoi cyfle gwych i bobl o bob oed a gallu ddatblygu arferion ymarfer corff cadarnhaol. Yn ogystal â'r manteision o ran iechyd a llesiant, mae'r tri llwybr yn cynnig cyfle i ddarganfod yr awyr agored a'r amgylchedd naturiol ac efallai ddarganfod gweithgareddau newydd i gymryd rhan ynddynt.

Mae cerdded yn gyflym am 30 munud y dydd, bum diwrnod yr wythnos yn un ffordd o fodloni argymhellion arbenigwyr meddygol o ran gweithgarwch corfforol i oedolion.

Does dim syndod, felly, fod y Llwybrau Cenedlaethol yn nhirwedd drawiadol Cymru yn cynnig y lle delfrydol i amrywiaeth o grwpiau fel y prosiect Walkability yn Sir Benfro

### ARFORDIR PENFRO

Fe'i sefydlwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chwaraeon Cymru, ac mae'n helpu pobl i gerdded a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw i gerdded.

Yn ogystal â rhoi hwb i iechyd corfforol, gall mynd am dro ar un o'r Llwybrau Cenedlaethol wneud gwyrthiau ar gyfer iechyd meddwl, MIND:

- Dywedodd 90% o'r bobl a gymerodd ran mewn gweithgareddau ymarfer corff gwyrdd mai'r cyfuniad o natur ac ymarfer corff yw'r peth pwysicaf wrth benderfynu sut maen nhw'n teimlo.
- Dywedodd 94% o bobl fod ymarfer corff gwyrdd yn gwella'u hiechyd meddwl.
- Dywedodd 90% o bobl fod cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff gwyrdd o fudd i'w hiechyd corfforol.

## PANEL FFEITHIAU CERDDED

Sawl calori y gallaf i eu llosgi?

- Hanner awr o gerdded hamddenol – 75 o galorïau
- Hanner awr o gerdded arferol – 99 o galorïau
- Hanner awr o gerdded cyflym – 150 o galorïau

*Ffynhonnell: O leiaf bump gwaith yr wythnos, yr Adran Iechyd, 2004, ar gyfer person cyffredin, sy'n pwyso 9.5 stôn*

## IECHYD A DIOGELWCH

Cymerwch y cyfle i atgoffa'ch cwsmeriaid o bwysigrwydd cadw'n ddiogel a bod yn gall wrth gerdded y llwybrau. Mae dangos eich bod yn poeni am ddiogelwch eich cwsmeriaid yn bwysig.

Dylech gynnwys y 10 Awgrym Gorau hyn ar eich gwefan, yn eich taflenni marchnata, neu yn eich llyfryn ar gyfer ystafelloedd gwely.

1. Dylech wybod lle rydych chi'n mynd – gwiriwch fapiau a gwefannau, edrychwch am unrhyw arwyddion rhybudd a gofynnwch ynglŷn â risgiau lleol.
2. Edrychwch ar y tywydd cyn i chi adael.
3. Cynlluniwch eich taith a gadewch i bobl wybod pryd i'ch disgwyl yn ôl. Gwnewch yn siŵr bod eich ffôn symudol wedi'i wefru'n llawn.
4. Cadwch eich lefelau egni i fyny drwy fynd â bwyd a dŵr gyda chi.
5. Gwnewch yn siŵr bod gennych y cyfarpar cywir. Gwisgwch ddillad o ansawdd da sy'n sych ac yn dal dŵr – ewch â sanau a chrysau sbâr, hyd yn oed os yw'r tywydd yn edrych yn braf. Gall newid ar amrantiad! Gwisgwch esgidiau sydd wedi'u gwneud yn bwrpasol ar gyfer cerdded. Mae'r esgidiau anghywir yn ddrwg i'ch traed chi ac yn gwneud i chi faglu a bod yn ansad ar eich traed.
6. Ewch ag eli haul gyda chi – cofiwch y gall gwyntoedd cryfion achosi llosg haul hefyd.
7. Cymerwch ofal i beidio â llithro, baglu neu gwympo. Arhoswch oddi wrth unrhyw ymyl neu ddibyn a pheidiwch â dringo clogwyni nac eistedd oddi tanynt.
8. Cymerwch ofal wrth gerdded ar hyd ffyrdd neu groesi ffyrdd a rheilffyrdd.
9. Gallwch ddod o hyd i fyd newydd llawn bywyd gwyllt yn y wlad. Cofiwch y gallwch edrych ond peidiwch â chyffwrdd.
10. Dysgwch sut a phryd i gael help – mewn argyfwng ffoniwch 999 neu 112 os ydych chi ar yr arfordir a gofynnwch am wyliwr y glannau.

HAFAN

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU
DEUNYDDIAU MARCHNATAS

HAFAN

## CYNGHORION I GERDDWYR CŴN

- Cadwch gŵn ar dennyn yn enwedig pan fyddan nhw'n agos at ymylon clogwyni neu afonydd sy'n llifo'n gyflym.
- Os yw eich ci yn mynd i mewn i'r dŵr neu'n mynd yn sownd mewn mwd, peidiwch â mynd i mewn ar ei ôl. Symudwch i rywle gall y ci ei gyrraedd yn ddiogel a galwch ef – mae'n debyg y daw allan ei hun.
- Cadwch gŵn ar dennyn pan fyddwch yn cerdded mewn man lle mae da byw, neu lle y gallai da byw fod.
- Mae'n drosedd caniatáu i'ch ci redeg ar ôl neu ymosod ar dda byw.

## PARCHWCH Y DŴR

Os byddwch yn disgyn yn annisgwyl i mewn i ddŵr oer, ceisiwch wrthsefyll eich greddf i guro'ch breichiau a'ch coesau neu nofio'n galed. Mae'n well ymlacio ac arnofio ar eich cefn i gael eich anadl. Ar ôl i sioc y dŵr oer fynd heibio, galwch am help, chwiliwch am rywbeth sy'n arnofio i ddal gafael ynddo, neu nofiwch i rywle diogel os allwch chi wneud hynny

PARCHWCH Y DŴR

**Dyma ddolen i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru lle gallwch weld y Cod Cefn Gwlad:**

COD CEFNGWLAD

## MENTRO'N GALL CYMRU

Mae Mentro'n Gall (AdventureSmart) yn ymgyrch genedlaethol yn y DU sy'n ceisio ymgysylltu â phobl yn gadarnhaol â'r wybodaeth syml sydd ei hangen arnyn nhw er mwyn cadw'n ddiogel ac yn gyfforddus wrth fwynhau'r awyr agored. Mae Croeso Cymru yn gweithio gyda Mentro'n Gall er mwyn sicrhau bod ei ddeunyddiau marchnata a'r rhai a gynhyrchir gan sefydliadau eraill yn ystod Blwyddyn yr Awyr Agored yn gyson â neges Mentro'n Gall.

Wrth roi cyhoeddusrwydd i'ch busnes a'ch gweithgareddau, bydd yn ddefnyddiol os byddwch yn gweithio yn ôl canllawiau Mentro'n Gall – er mwyn sicrhau bod eich gwesteion a'ch ymwelwyr yn cadw'n ddiogel.

Mae negeseuon Mentro'n Gall ar gael yn:

NEGESEUON ALLWEDDOL

**Mae gan ei safle hefyd becyn cymorth busnes gydag adnoddau ardderchog i chi eu lawrlwytho, yn rhad ac am ddim.**
www.adventuresmart.uk/cy/adnoddau-busnes/
www.adventuresmart.uk/cy/cymru/
#MentronGall #Bethsyddyndyfag
#BeAdventureSmart #whatsinyourbag
#whatkitareyouwearing

ADNODDAU

## CYFYNGIADAU COVID-19

Mae safle Mentro'n Gall hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar ymdopi â Covid-19 a thra bod cyfyngiadau yn dal i fod yn berthnasol, gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon ar eich gwefan.

Dyma dri chwestiwn sy'n cwmpasu cyngor Mentro'n Gall i gerddwyr:

### Oes gen i'r gêr cywir?

Os yw hynny wedi eich peri i ofyn, 'beth yw'r gêr cywir?' yna mae angen help arnoch chi! Nid oes angen i'ch cyfarpar fod yn ddrud ond mae'n rhaid iddo eich cadw'n gynnes ac yn sych, ac yn achos esgidiau, mae angen iddyn nhw ffitio'n dda; does dim byd tebyg i bothelli am ddifetha diwrnod da o gerdded! Os yw eich antur yn cynnwys mynd allan ar y dŵr yna mae dyfais arnofio sy'n ffitio'n dda ac sydd mewn cyflwr da yn hanfodol.

### Ydw i'n gwybod sut fydd y tywydd?

Gan ein bod i gyd yn gyfarwydd ag ef yn y DU, gall y tywydd wella neu ddifetha eich diwrnod. Does dim rhaid i hyn olygu na allwn ni fynd allan i'r awyr agored os oes rhywfaint o law mân neu hyd yn oed wyntoedd cryfion. Fel Sgowt da, mae paratoi a gallu addasu eich cynlluniau'n allweddol o ran cadw eich diwrnod o dan reolaeth. Edrychwch ar ragolygon y tywydd – mae'r Swyddfa Dywydd yn fan cychwyn da. ON: Cofiwch y gall awyr digwmwl hefyd achosi problemau (cofiwch osgoi trawiad gwres!).

### Ydw i'n hyderus bod gen i'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer y diwrnod?

Mae antur yn caniatáu i ni gamu y tu allan i'n ffiniau cyfarwydd ac mae'n ffordd wych o ailddarganfod awch am fywyd dro ar ôl tro. Yn y bôn, mae bod yn gall ar eich antur yn golygu eich bod yn meddwl am eich profiad a'ch sgiliau eich hun. Mae dewis antur rydych chi'n gwybod sydd o fewn eich gallu yn rhan o'r hwyl – ac os ydych chi eisiau gwneud rhywbeth sy'n gwthio'r ffiniau, mae sawl ffordd o ddod o hyd i dywysydd neu hyfforddwr i'ch helpu.

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU
DEUNYDDIAU MARCHNATAS

HAFAN

## MAPIAU A THEITHIAU CERDDED

Edrychwch ar deithiau cerdded unigol ar hyd y llwybrau ar y gwefannau hyn. Defnyddiwch y wybodaeth i greu teithlenni ar gyfer eich ymwelwyr.

LLWYBR GLYNDŴR:

- Dewisiwch eich hoff daith ar Lwybr Glyndwr (Croeso Cymru)

LLWYBR CLAWDD OFFA

- Teithiau Llwybr Clawdd Offa (Croeso Cymru)

LLWYBR ARFORDIR SIR BENFRO

- Llwybr Arfordir Penfro Dringo Everest (Croeso Cymru)

## GWYBODAETH AM HYGYRCHEDD / I'R SAWL SYDD AG ANABLEDD

Rhowch wybodaeth i'ch cwsmeriaid ynglŷn â pha mor hygyrch yw'r llwybrau i'r rhai sydd ag anableddau. Yn dibynnu ar lefel yr anabledd, dydy hi ddim yn hawdd cwblhau pob un o'r llwybrau. Ond edrychwch ar deithiau cerdded addas yn

LLWYBRAU CENEDLAETHOL

Mae Crwydro Cymru (Wales Walking Holidays) hefyd yn cynnig cyngor a gwybodaeth am gerdded y tri llwybr yng Nghymru.

- Llwybr Clawdd Offa
- Llwybr Glyndŵr
- Llwybr Arfordir Sir Benfro

## TRYSORAU CUDD

Oes gennych chi hoff fan ar lwybr yn agos atoch chi? Rhannwch y fan yma gyda'ch gwesteion – yn eich taflen, eich llyfryn ar gyfer ystafelloedd gwely, ar eich gwefan neu yn eich gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol.

**Dyma rai awgrymiadau i chi:**

- Y golygfeydd ysblennydd dros Gader Idris
- Y golygfeydd o lannau Cronfa Ddŵr Clywedog ac eangderau grugog Pumlumon
- Lluniaeth ar ddiwedd y daith yng Nghaffi Traeth Poppit, Llandudoch, Sir Benfro
- Oriel y Boathouse, Heol St. Bride's, Aber Bach
- Strydoedd prysur y Gelli Gandryll yn ystod yr ŵyl lenyddiaeth
- Yr olygfa ar draws yr afon i Gastell Cas-gwent
- Llyn Efyrnwy a Mynyddoedd y Berwyn
- Y gerddi syfrdanol yng Nghastell Powys
- Grug porffor yr hydref yng ngwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Glaslyn.

## AIL-LENWI CYMRU

Dyma gyfle gwych i fusnesau lleol gynnig dŵr yfed am ddim i gerddwyr a bod yn rhan o gynllun cenedlaethol cyffrous sy'n cael effaith fawr.

Mae Ail-lenwi (Refill) yn ymgyrch gwobredig i atal llygredd plastig yn ei darddiad drwy ei gwneud yn haws i bobl gario potel y gellir ei hailddefnyddio a'i hail-lenwi am ddim pan fyddan nhw allan.

Lansiwyd y Cynllun Ail-lenwi gan City to Sea, sefydliad nid-er-elw o dan arweiniad yr entrepreneur Natalie Fee, yn 2015. Bellach mae Ail-lenwi Cymru'n cael ei gyflwyno ledled y wlad gyda chefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru a chwmnïau dŵr Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, ac mae'n cynyddu argaeledd dŵr yfed o ansawdd uchel yn sylweddol.

Ar hyn o bryd, mae llai na 30 y cant o bobl y DU yn yfed dŵr tap mewn potel y gellir ei hailddefnyddio, er gwaethaf y ffaith ein bod yn lwcus i gael dŵr yfed sydd gyda'r gorau yn y byd. Bydd y person cyffredin yn y DU yn defnyddio 150 o boteli dŵr plastig bob blwyddyn, ond pe bai dim ond un o bob deg yn cael ei hail-lenwi unwaith yr wythnos, byddem yn defnyddio 340 miliwn yn llai o boteli plastig y flwyddyn.

Os ydych chi'n fusnes sy'n meddu ar dap dŵr sydd ar gael i'r cyhoedd, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw llenwi ychydig o fanylion ar yr ap Refill i greu eich proffil ar y map yn rhad ac am ddim. Unwaith y bydd eich gorsaf yn fyw, byddwch yn barod i groesawu Ail-lenwyr sychedig a manteisio ar fwy o amlygrwydd ac ymweliadau o ganlyniad.

Does dim rhaid i Orsafoedd Ail-lenwi fod yn gaffis neu'n fwytai. Mae yna lyfrgelloedd, siopau gwerthwyr tai, siopau trin gwallt, siopau cigyddion, siopau pentref ac amgueddfeydd i'w cael ar yr ap fel Gorsafoedd Ail-lenwi. Mae ein sticeri ffenestri glas yn cael eu harddangos gyda balchder gan berchenogion busnesau lleol i ddangos eu hymrwymiad i'n helpu i leihau plastigau defnydd untro, ac fel 'croeso!' i bobl a allai fod yn ansicr neu'n ofni gofyn am ail-lenwi'r dŵr am ddim.

Mae Ail-lenwi Cymru bellach ar Facebook, Instagram a Twitter. Cydlynydd Ail-lenwi Cymru yw Hannah Osman. Am fwy o wybodaeth ewch i Ail-lenwi Cymru. Os hoffech sefydlu Cynllun Ail-lenwi yn eich cymuned, cysylltwch â hi ar hannah@refill.org.uk

AIL-LENWI CYMRU



LLWYBRAU CENEDLAETHOL
NATIONAL TRAILS

# LLWYBRAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

## ENGHREIFFTIAU O ARFERION GORAU

# ENGHREIFFTIAU O ARFERION GORAU

## SAFLEOEDD CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cymerwch olwg ar yr enghreifftiau hyn ar gyfer syniadau gwych:

- CAFFI TRAETH LLIGWY (Facebook)
- CAFFI TRAETH LLIGWY (Instagram)
- ABERPORTH COASTAL (Facebook)
- ABERPORTH COASTAL (Instagram)

## E-GYLCHLYTHYRCREU EICH E-GYLCHLYTHYRAU EICH HUN

Mae yna sawl ffordd i greu eich cylchlythyrau eich hunain i yrru i'ch cwsmeriaid a'ch cyflenwyr. Os oes gennych y cyllid, gallwch gael eich cylchlythyrau wedi'u dylunio a defnyddio platfformau marchnata megis Mailchimp.

Fodd bynnag, os ydych eisiau cadw costau i lawr yna mae Microsoft Word yn cynnig ystod o dempledi cylchlythyr gallwch eu defnyddio, gydag ychydig o ymarfer, i greu cylchlythyrau deniadol gallwch yrru drwy e-bost neu hyd yn oed brintio copïau caled. Gallwch hefyd ddefnyddio Microsoft Word i gynhyrchu ystod o ddeunyddiau marchnata eraill, megis posteri.



PARC GWYLIAU DEDWYDD
CYLCHLYTHYR
RHIFYN 1 | MAWRTH 2019

MAE CROESO I GERDDWYR YNG NGHYMRU!

O'r ffin Gymreig yn y Gogledd i Gas Gwent yn y de ddwyrain, mae Llwybr Arfordir Cymru'n cynnig 870 milltir o arfordir i ddewis ohono, i bobl o bob gallu i gychwyn cerdded eu ffordd i iechyd.

Gall cerdded bywiog wella iechyd meddwl a chorfforol a lles, ac mae'n rhoi cyfle ffantastig i bobl o bob oed ffurfio arferion ymarfer corff positif. Yn ogystal â'r enillion iechyd a lles, mae Llwybr Arfordir Cymru'n cynnig y cyfle i ffotio'r awyr agored a'r amgylchedd naturiol a hwyroch ddargonfod gweithgareddau newydd i gymryd rhan ynddynt.

Yma ym Mharc Gwyliau Dedwydd mae milltiroedd o deithiau cerdded godidog ar ein stepen ddrws. Felly cysylltwch nawr! www.pgd.com

YN NEWYDD AR GYFER 2019

Agoron ni ystafell sychu newydd i chi goel cadw eich cit i gyd yn gynnes a sych ar ôl diwrnod caled o gerdded!

DARGANFOD

2019 yw Blwyddyn Darganfod Cymru – felly dewch i ddarganfod ein llu o atyniadau, anturiaethau a phrofiadau! https://croeso.cymru/

MAE'N FFAITH

Mae mynd am dro hamddenol am hanner awr yn llosgi 75 calori.

Mae cerdded am hanner awr yn llosgi 99 ac mae hanner awr o gerdded cyflym yn llosgi 150 calori.

I ddechrau agorwch Word ar eich cyfrifiadur a dewis templed cylchlythyr. Byddwch yn gweld cyfarwyddiadau ar sut i greu eich cylchlythyr drwy ychwanegu lluniau a straeon. Gwnewch yn siŵr bod beth rydych yn rhoi yn eich cylchlythyr yn berthnasol ac yn ddiddorol.

Y ffordd orau i feirniadu hyn yw gofyn i'ch hun: "os wyddwn i ddim am y busnes yma byddai diddordeb gen i mewn darllen y stori yma?" Os mai byddai yw eich ateb, rydych ar y trywydd iawn.

- Crëwch enw ar gyfer eich cylchlythyr sy'n adlewyrchu'n gywir natur eich busnes.
- Peidiwch â bod yn rhy benodol gyda'r dyddiad - mae Gwanwyn 2019 yn ddigonol.
- Dewiswch luniau o ansawdd dda, sydd un ai yn dweud eu stori eu hunain, neu yn helpu i ddarlunio copi rydych wedi ei ysgrifennu.
- Ysgrifennwch am bethau mae cwsmeriaid yn hidio amdanynt – cynnyrch neu wasanaethau newydd, cynigion arbennig, agoriad sba iechyd newydd neu estyniad i oriau agor ayyb.
- Gwnewch o'n bersonol – mae pobl yn hoffi darllen am bobl.
- Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer eich busnes – enw, rhif ffôn, e-bost a gwefan, mewn safle amlwg.
- Gyrrwch gylchlythyrau'n aml, ond nid rhy aml - mae tri'r flwyddyn yn ddelfrydol.
- Os ydych yn defnyddio e-bost, sicrhewch eich bod yn cydymffurfio â'r Rheolau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Am fwy o wybodaeth am hyn cliciwch yma

GDPR

HAFAN

ENGHRAIFFT O DDATGANIAD I'R WASG
Cofiwch y rheol – eglurwch

Pwy,
Beth,
Pryd,
Pam,
Ble,
a Sut

[PENNAWD I DDAL SYLW'R GOHEBWYR]

# GWESTY YN Y CANOLBARTH YN CAEL CERDDWYR YN ÔL AR EU TRAED

**Mae gwesty yng nghanolbarth Cymru [pwy] yn lansio gwasanaeth newydd [beth] yr wythnos nesaf [pryd] i gael cerddwyr blinedig yn ôl ar eu traed [pam] ar ôl iddyn nhw fwynhau diwrnod hir ar Lwybr Glyndŵr - un o'r tri Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru.**

Mae Gwesty'r Eagles [ble] ar y Stryd Fawr, Llanidloes, yn cynnig gwasanaeth tylino a thrin traed am ddim i'w ymwelwyr i'w helpu i ymlacio ar ôl diwrnod o gerdded y llwybr [sut].

[Manylion ychwanegol] Dywedodd rheolwr y gwesty, Geraint Roberts, iddo feddwl am y syniad ar ôl trafodaeth gyda'i reolwr gweithrediadau, Lisa Janes, a ddywedodd na allai cerddwyr aros i dynnu eu sanau a'u hesgidiau ac ymlacio'u traed poenus wrth ddychwelyd i'r gwesty ar ddiwedd y dydd.

Bellach, mae wedi ffurfio ei dîm o arbenigwyr ar drin traed blinedig, a bydd yn lansio'r gwasanaeth ddydd Sadwrn, 12 Mai.

[Dyfyniad i roi diddordeb a lliw] *"Mae Gwesty'r Eagles wedi croesawu cerddwyr erioed," meddai Geraint Roberts, "ac ar ôl diwrnod yn cerdded y llwybr roedden ni am wneud mwy i'n gwesteion i ddangos cymaint yw'r croeso sydd iddyn nhw.*

*"Felly, bob nos Sadwrn tan fis Medi, bydd ganddon ni dîm o weithwyr proffesiynol hyfforddedig a chymwysedig yn barod i roi triniaeth traed yn rhad ac am ddim i gerddwyr wrth iddyn nhw ymlacio."*

[Gwybodaeth o'r Pecyn Cymorth]: Mae Llwybr Glyndŵr yn Llwybr Cenedlaethol 135 milltir (217 km) o hyd sy'n ymestyn drwy rostir agored, tir fferm bryniog, coetir a choedwigoedd canolbarth Cymru. Gan ddechrau yn Nhrefyclo a gorffen yn y Trallwng, cafodd y Llwybr ei enwi ar ôl Owain Glyndŵr, Tywysog Cymru ac arweinydd cenedlaetholgar Cymru'r Canol Oesoedd a drefnodd wrthryfel yn erbyn Brenin Lloegr, Harri IV ym 1400.
DIWEDD

Gwybodaeth bellach gan **Geraint Roberts,**
rheolwr **geraint2@eagles.co.uk**
**0234 456375**

[Gwnewch yn glir y byddwch yn helpu'r cyfryngau i gael cyfweliadau a lluniau ar y diwrnod]
Croeso i newyddiadurwyr a ffotograffwyr yn y digwyddiad lansio am 5.30 pm. Dydd Sadwrn, 12 Mai.

HAFAN